

ISSN 2053-5171

Rhifyn 9

Hydref 2015

Herio Materion Crefyddol

Richard Bartholomew
Ymdrin â Mudiadau
Crefyddol Newydd

Jeff Astley
Athroniaeth John Hick
ar grefydd

Peter Watts
Iesu Hanes a Christ
y Ffydd

Declan O'Sullivan
Pum Piler Islam a'u
Harwyddocâd mewn
Cymdeithas Fodern

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 9 Hydref 2015

Cynnwys

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd Richard Bartholomew	2
Athroniaeth John Hick ar grefydd Jeff Astley	9
Iesu Hanes a Christ y Ffydd Peter Watts	19
Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern Declan O'Sullivan	25

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Warwick, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig Ddr David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

Richard Bartholomew

Mae'r erthygl hon yn awgrymu y dylai Mudiadau Crefyddol Newydd gael eu deall fel ymatebion i'r strwythur a'r wybodaeth am y byd modern. Mae'n egluro y gall credoau a syniadau crefyddol 'amgen' gael eu canfod mewn cyd-destunau unigol yn ogystal ag mewn grwpiau ffurfiol, ac mae'n dadlau dros ymagwedd gytbwys ynghylch a yw Mudiadau Crefyddol Newydd neilltuol yn gymdeithasol broblemus. Mae'n dadlau ymhellach na ddylai Mudiadau Crefyddol Newydd gael eu 'hegsotigeiddio', a'u bod o ddiddordeb oherwydd y mewnwelediad y maen nhw'n gallu ei gynnis i grefydd yn fwy cyffredinol.

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS1/2 CS: Cyflwyno crefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (AS), 3. Crefydd a'r Gymuned.

Diffinio Mudiadau Crefyddol Newydd

Yn y defnydd poblogaidd, mae grwpiau crefyddol nad ydyn nhw'n brif ffrwd yn cael eu disgrifio'n aml fel 'cylliau' neu 'sectau'. Bydd cymdeithasegwyr crefydd hefyd yn defnyddio'r geiriau hyn, ond mewn ffordd fwy amgylchol, ac maen nhw'n wylidwrs o sut mae'r labeli hyn yn gallu awgrymu tuedd negyddol: weithiau bydd cyhoeddiadau Cristnogol yn defnyddio'r gair 'cwl't' i gyfeirio at grwpiau y maen nhw'n credu eu bod yn arddel barn ddiwinyddol 'anuniongred'. Mae'r term 'Mudiad Crefyddol Newydd' yn ddewis niwtral, er y gallai cyd-destun hanesyddol grŵp a ddiffinnir fel 'Newydd' mewn gwirionedd erbyn hyn fod rywfaint o amser yn ôl yn y gorffennol. Wrth gwrs,

mae'n bosibl cyfeirio mewn ffordd gyffredinol at 'fudiadau crefyddol newydd' mewn cyfnodau hanesyddol blaenorol (er enghraifft, y Cathars yn y Ffrainc ganoloesol, neu hyd yn oed Gristnogion y ganrif gyntaf), ond nid yw'r term ffurfiol wedi cael ei groesawu gan haneswyr ac mae 'Mudiad Crefyddol Newydd' yn cael ei ddeall fel arfer i olygu mudiad sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod modern, ac mewn ymateb i amodau moderniaeth. Mae'r amodau hyn yn cynnwys patrymau newydd o drefniadaeth gymdeithasol, globaleiddio rhwydweithiau cyfathrebu, ac unigolyddiaeth a phrynwriaeth gynyddol.

Fodd bynnag, yn union fel nad oes neb yn cyhoeddi eu bod yn perthyn i 'gwlt' fel arfer nid yw ymlynwyr yn ystyried eu

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

hunain fel aelodau o 'Grefyddau Newydd' ond yn hytrach fel bod yn perthyn i sefydliadau gyda chipolwg newydd - neu wedi eu hailddarganfod –ar wirioneddau hynafol. Mae eglwys y Mormoniaid, *Church of Jesus Christ of Latter-Day Saints*, er enghraifft, yn dyddio o 1830, ond mae ymlynwyr yn credu bod y llyfr *The Book of Mormon* a gyhoeddwyd gyntaf yn y flwyddyn honno, mewn gwirionedd yn destun hynafol sy'n cydfynd â'r Beibl. Mae Mudiadau Crefyddol Newydd yn cymathu credoau hynafol ac / neu'n eu haddasu i wybodaeth ddilynol: mae *The Book of Mormon* yn cysylltu hanes yr Israeliaid a bywyd Iesu â gwledydd America; mae'r ffydd Baha'i yn cydnabod ei sylfaenydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel cyflawniad o ddatguddiad gan Dduw sy'n cwmpasu Moses, Iesu, Muhammad a'r proffwydi eraill; mae'r *Unification Church* (y mae ei haelodau'n casáu cael eu galw'n 'Moonies') yn cysylltu syniadau Conffiwsaidd am y teulu â gwaith Iesu. Mae grwpiau UFO fel *Raëlians* yn cysylltu crefydd hynafol gyda chosmoleg wyddonol fodern trwy ail-ddehongli Iesu a'r Bwdha fel bodau allfydol.

Yr hen syniad o grefyddau newydd

Mae llawer o'r grwpiau sy'n cael eu dyfynnu pan fydd sôn am y testun 'Crefyddau Newydd' fel arfer wedi cael eu sefydlu yn y D.U. a gwledydd eraill yn awr ers dwy neu dair cenhedlaeth neu fwy. Mae'r sylfaenwyr carismataidd wedi marw, ac mae eu sefydliadau erbyn hyn yn cael eu rhedeg yn fwy biwrocraidd; bydd eu haelodau wedi eu codi o fewn y grŵp efallai yn hytrach na bod wedi troi at y grefydd. O bryd i'w gilydd, fe fydd mympwyon enwogion yn dod â thueddiadau newydd i olwg y cyhoedd (fel cymdeithas y gantores Madonna

gyda Chanolfan Kabbalah Michael Berg), ond mae'n anodd dychmygu arweinydd grŵp yn dal dychymyg y cyhoedd yn yr un ffordd â'r Parchedig Sun Myung Moon (sylfaenydd yr *Unification Church*) neu L. Ron Hubbard (sylfaenydd Seientoleg, *Scientology*) yn ystod degawdau blaenorol.

Efallai bod hyn oherwydd bod y cyddestun y mae pobl yn dewis hunaniaethau crefyddol ynddo yn y D.U. wedi newid. Yn y 1950au a'r 1960au, roedd Mudiadau Crefyddol Newydd yn y Gorllewin yn rhan o 'wrth-ddiwylliant' yn yr hwn yr oedd pobl ifanc yn gwrthod cydymffurfio cymdeithasol o ran materion gwisg, ffordd o fyw, a rolau rhyw, ac yn cwestiynu'r rhagdybiaeth fod rhesymoliaeth wyddonol a threftadaeth grefyddol y Gorllewin yn cynnig y ffordd orau i ddeall y bydysawd ac yn hwyluso twf a lles personol. Mae'r foment hanesyddol honno wedi mynd heibio, ac mae uchafiaeth dewis unigol erbyn hyn yn cael ei gymryd yn ganiataol yn y gymdeithas o ddefnyddwyr sydd ohoni heddiw. Nid yw uniaethu gyda'r syniadau crefyddol a ddaeth i'r amlwg neu a ledaenodd i'r Gorllewin yn ystod yr ugeinfed ganrif, yn ddim mwy gwrth-ddiwylliant na dewis a mynegi hoffter tuag at fwyd nad yw'n draddodiadol.

Credoau ac unigolion amgen

Fodd bynnag, nid yw cadw at syniadau anhraddodiadol o reidrwydd yn golygu aelodaeth o sefydliad neilltuol, ac yn llawer llai o 'ymrwymiad llawn' i achos. Mae Bwdhaeth Tibet, er enghraifft, yn set gymharol newydd o syniadau crefyddol yn y Gorllewin ond, er bod llyfrau gan y Dalai Lama yn lyfrau sy'n gwerthu orau, nid yw ei boblogrwydd yn cael ei adlewyrchu mewn llyfr o aelodau newydd o fudiadau Bwdhaidd. Gall sefydliadau ac unigolion yn cynnig gwasanaethau ac

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

athrawiaethau ysbrydol ddenu
cwsmeriaid yn hytrach nag aelodau neu
ddilynwyr.

Mae un enghraifft o unigolyddiaeth
crefyddol i'w chanfod mewn cyfweiliad
diweddar â Noel Edmonds, cyflwynydd
teledu poblogaidd. Dyma ddyfyniad o
eiriau Edmonds:

*If you want to be happy you need to
think of yourself as a container of
energy. There is a universal energy,
yes of course, it embraces us.*

*When you appreciate this, life
becomes a lot more exciting. You
don't live life, life lives you. There isn't
such a thing as death, it's just
departure. You cannot die. It's been
known for a very long time.*

*The energy leaves your container
but it has to go somewhere. You
cannot destroy energy. My energy will
return to where it came from – part of
a massive, incomprehensible
universal web of energy.' (Edmonds,
yn Jeffries and Bellfield, 2015)*

Mae credoau o'r fath yn cael eu
hadnabod ar unwaith fel bod yn perthyn i
amgylchfyd 'Oes Newydd' yn yr hon mae
termau gwyddonol ac ysbrydol bras yn
cael eu cyd-gymysg, er nad yw Edmonds
yn enwi unrhyw lyfr neu athro penodol.

Mae crefyddau unigoleddig wedi cael eu
nodi hefyd mewn perthynas â'r Unol
Daleithiau. Yn 1996, fe wnaeth
cymdeithasegwyr gyfsweld gwraig a
esboniodd ei ffydd crefyddol o
'Sheilaism', a enwyd ar ei hôl hi ei hun:

*I believe in God. I'm not a religious
fanatic. I can't remember the last time
I went to church. My faith has carried
me a long way. It's Sheilaism. Just my
own little voice... It's just try to love
yourself and be gentle with yourself.*

*You know, I guess, take care of each
other. I think He would want us to take
care of each other. (yn Bellah et al.,
2008 [1985], t. 221)*

Fe gododd yr awduron y posibilrwydd fod
dros 220 miliwn o grefyddau
Americanaidd mewn bodolaeth, un ar
gyfer pob un ohonom - 'over 220 million
American religions, one for each of us'.
Nid yw'n wir, fodd bynnag, fod pob un o'r
credoau crefyddol yn cael yr un faint o
barch: cafodd credoau Edmonds eu
hadrodd yn y cyfryngau mewn tŷn wamal,
gydag islif o destun sbort.

Mudiadau Crefyddol Newydd ac eithafiaeth

Er gwaethaf y tueddiadau o unigoleiddio
a drafodwyd uchod, mae pobl yn dal i
barhau fel aelodau o grwpiau crefyddol -
ac fel credoau crefyddol, nid yw pob
grŵp yn cael ei ystyried yn yr un modd.
Ystyriwch, er enghraifft, beth pe byddai
ymgeisydd sydd o ddifrif am fod Brif
Weinidog adeg yr etholiad cenedlaethol
nesaf yn aelod o Fudiad Crefyddol
Newydd. Fe fyddai cwestiynau'n cael eu
gofyn ynghylch a fyddai credoau
crefyddol anarferol yr ymgeisydd yn
arwydd o farn wael, neu hyd yn oed o
ansefydlogrwydd meddyliol efallai. Hefyd
fe fyddai pryderon efallai ynghylch a
fyddai arweinyddiaeth y grŵp yn cael
ddylanwad amhriodol ar y ffordd y
byddai'r wlad yn cael ei rhedeg.

Byddai pryderon o'r fath yn adlewyrchu
hen bryderon am Fudiadau Crefyddol
Newydd: bod perthynas gamweithredol
gan grwpiau gyda'r gymdeithas
ehangach, a bod yr aelodau'n gaeth i
arweinwyr awdurdodol ac athrawiaethau
afresymol. Mae clywed sôn am 'gwlt' yn
dod â thrasiedïau di-rif i'r meddwl ar
unwaith, fel yr ymosodiad nwy a
ddigwyddodd ar yr isffordd yn Sarin,

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

Tokyo, 20 mlynedd yn ôl, neu'r hunanladdiad torfol yn Jonestown, Guyana, ym 1978. Mae cymdeithasegwyr crefydd, drwy geisio cyflwyno Mudiadau Crefyddol Newydd gyda chydymdeimlad, wedi cael eu cyhuddo o anwybyddu cam-driniaeth ac o weithredu fel 'diffinyddion cwlt'. Fe nododd un ysgolhaig, a oedd yn ysgrifennu ychydig flynyddoedd ar ôl yr ymosodiad yn Tokyo, y geiriau canlynol:

In recent years, the New Religious Movements research community displayed a general agreement on a hierarchy of credibility . . . according to which self-presentation by New Religious Movements was epistemologically and logically superior to all outside accounts and observations. . . . Recent historical-behavioral autopsies enable us to realize that in every single case allegations by hostile outsiders, critics, and detractors have sometimes been closer to reality than any other accounts . . . Ever since Jonestown, statements by ex-members turned out to be just as accurate or more so than those of apologists and New Religious Movements researchers. (Beit-Hallahmi 2001, tt. 39, 62)

Mae'r Mudiadau Crefyddol Newydd yn wynebu erledigaeth neu reolaethau llym mewn nifer o wledydd. Mewn rhai achosion, mae hyn yn unig oherwydd nad yw llywodraeth awdurdodaidd eisiau mudiadau cymdeithasol newydd o unrhyw fath nad oes ganddi reolaeth drostyn nhw; fel arall, fe allai cysylltiadau agos fod rhwng y llywodraeth a chrefydd neilltuol. Fodd bynnag, efallai y byddai pryderon gwirioneddol: yn Tsieina, er enghraifft, fe wnaeth Mudiad Crefyddol

Newydd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn seiliedig ar Gristnogaeth, mudiad o'r enw *Taiping Heavenly Kingdom*, sbarduno rhyfel cartref yn ne'r wlad.

Os gwnawn ni ganolbwyntio llai ar athrawiaethau anghyfarwydd Crefyddau Newydd - tuedd sy'n gallu cael ei gweld fel ffordd o egstotigiaeth - a chanolbwyntio mwy ar ymddygiad crefyddol yn gyffredinol, fe allwn ni grynhoi pryder ehangach mewn un ymadrodd sydd ar hyn o bryd yn boblogaidd yn y D.U. sef 'eithafiaeth grefyddol' (*religious extremism*). Ar gyfer aelodau 'prif ffrwd' crefydd, mae 'eithafol' yn golygu 'wedi ei ystumio' neu 'anghytbwys', a dyma sut mae grwpiau crefyddol yn tueddu i ystyried sectau sydd wedi torri i ffrwd. Ar gyfer yr ymlynwr, fodd bynnag, mae 'eithafol' yn dynodi 'purdeb' ac 'ymrwymiad llawn', yn wahanol i'r brif ffrwd grefyddol gyfforddus ond cyfaddawdol. Fe all rhai Mudiadau Crefyddol Newydd felly ddarparu mewnwelediadau i hudoliaeth y Wladwriaeth Islamaidd (Islamic State) yn achos rhai Mwslimiaid ifanc yn y D.U.

Normaleiddio Mudiadau Crefyddol Newydd

Mewn rhai ffyrdd, mae'r diddordeb mewn Mudiadau Crefyddol Newydd yn anghymesur â niferoedd a dylanwad: mae'r *Unification Church*, er enghraifft, gyda dim ond ychydig gannoedd o aelodau yn y D.U. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau'n mynd o gwmpas eu busnes heb wrthdaro gyda'r Awdurdodau. Dim ond i leiafrif o unigolion (dosbarth canol yn bennaf) mae hyd yn oed yr 'Oes Newydd' (*New Age*) yn apelio, ac nid oes llawer o dystiolaeth bod credoau o'r fath yn cael effaith amlwg ar sut mae pobl yn byw eu bywydau. Fodd bynnag, mae'r

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

Mudiadau Crefyddol Newydd yn werth eu hastudio o ran yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthym am grefydd yn gyffredinol.

Enghraifft enwog yma yw *When Prophecy Fails*, a gyhoeddwyd yn 1956. Fe astudiodd yr awduron grŵp yn yr Unol Daleithiau a oedd yn credu y byddai, ar ddyddiad yn y dyfodol agos, aliwns (*aliens*) yn cyrraedd ac yn eu hachub rhag trychineb byd-eang. Roedd yr awduron â diddordeb mewn cael gwybod sut y byddai aelodau'r grŵp yn ymateb pan fyddai'r diwrnod yn cyrraedd, a'r byd y dal i fynd yn ei flaen fel arfer (yn ddadleuol fe wnaethon nhw gasglu eu data drwy esgus rhannu credoau'r grŵp, yn hytrach na gofyn caniatâd y grŵp, a chafodd y math hwn o ymdreiddiad ei feirniadu'n ddiweddarach a'i ystyried yn anfoesegol).

Yn ffodus er ddibenion yr astudiaeth, ni chyrhaeddodd yr aliwns, ac roedd yr ymchwilyr mewn sefyllfa i archwilio sut y gwnaeth yr ymlynwyr ymdopi gyda'r 'anghyseinedd gwybyddol' a'r anghysur meddyliol a achoswyd drwy gynnal credoau croesebol:

There is a way in which the remaining dissonance can be reduced. If more and more people can be persuaded that the system of belief is correct, then clearly it must, after all, be correct. Consider the extreme case: if everyone in the whole world believed something there would be no question at all as to the validity of this belief. It is for this reason that we observe the increase in proselytizing following disconfirmation. (Festinger et al., 2008 [1956], t. 30)

Tynnodd yr awduron sylw at debygrwydd gyda sefyllfaoedd eraill, a

hefyd awgrymu'n betrus y gallai eu canfyddiadau helpu i esbonio'r cynnydd mewn Cristnogaeth yn dilyn croeshoeliad Iesu. Fel pob astudiaeth glasurol arall, mae *When Prophecy Fails* wedi bod yn destun beirniadaeth yng ngoleuni ymchwil a dadansoddi pellach, ond mae'n parhau i fod yn fan cychwyn ar gyfer meddwl am ddeinameg arbennig o fewn crefydd, a seicoleg cymdeithasol yn ehangach.

Ymhellach, os yw Mudiadau Crefyddol Newydd yn gallu dweud wrthym am eithafiaeth crefyddol, mae'n nhw'n gallu dweud wrthym hefyd am ddatblygiadau o fewn crefydd prif ffrwd. Er enghraifft, mae Pentecostiaeth yn cael ei weld fel mudiad newydd o fewn Cristnogaeth Efengylaidd, ond nid fel Mudiad Crefyddol Newydd. Fel Mudiadau Crefyddol Newydd, fodd bynnag, mae'r symudiad Pentecostaidd yn cael ei nodweddu'n aml gan eglwysi newydd gydag arweinwyr carismatig. Mae rhai o'r arweinwyr hyn yn honni eu bod yn derbyn negeseuon oddi wrth Dduw, a'u bod yn cael eu grymuso i berfformio iacháu goruwchnaturiol; mewn rhai achosion o arweinyddiaeth llym, mae cyhuddiadau gan gyn-aelodau a rhai o'r tu allan o ymddygiad cwlt-debyg, '*cult-like behaviour*'.

Mae un astudiaeth o Bentecostiaeth yn yr Unol Daleithiau wedi ei henwi'n gampus fel *Vision of the Disinherited*. Yn ôl yr awdur:

I would hazard the hypothesis that status deprivation and an anti-rationalist, anti-bureaucratic – i.e., anti-modern – temper has combined to predispose most of the recruits to the neo-Pentecostal movement. Pentecostals, old and new, have typically testified that before their

Ymdrin â Mudiadau Crefyddol Newydd

conversion to Pentecostalism they felt empty and hungry for God or for something they could not articulate. In short, they felt deprived. (Anderson, 1979, t. 229)

Mae amddifadedd, 'deprivation', fel arfer yn golygu 'todi', ond gall hefyd fod yn gysyniad cymharol sy'n berthnasol i bobl dosbarth-canol sydd efallai'n faterol gyfforddus ond yn anfodlon â'u hamgylchiadau. Mae'r ffactorau a nodir yma'n cyd-fynd yn dda iawn â'r hyn sy'n atyniadol ynglŷn â Mudiadau Crefyddol Newydd.

Casgliad

Yn aml, fe fydd gwyddonwyr cymdeithasol yn gweld eu rôl fel rhai sy'n gwneud 'y rhyfedd yn gyfarwydd a'r cyfarwydd yn rhyfedd'. Gall fod yn demtasiwn ystyried credoau ac ymlynwyr Mudiadau Crefyddol Newydd yn 'od', ond mae'r math yma o 'Arallrwydd', neu 'Othering', yn golygu bod dilyniannau gyda chrefydd 'prif ffrwd' yn cael eu hanwybyddu. Yn y naill gyd-destun a'r llall, gallwch ddod o hyd i swyddogaethau iach, yn ogystal â chamweithrediadau problemus.

Cysylltau

<http://www.cesnur.org> (Center for Studies on New Religions)

<http://www.icsahome.com>

(International Cultic Studies Association)

<http://www.inform.ac> (The Information Network on Religious Movements)

<http://www.religioustolerance.org> (Ontario Consultants on Religious Tolerance)

Pwyntiau trafod

1. A oes rhagfarn yn erbyn Mudiadau Crefyddol Newydd yn y D.U.? Os felly, pa ffurf mae'n ei gymryd?
2. O ystyried y seciwlareiddio ar gymdeithas Prydain, a allwn ni barhau i gyferbynnu Mudiadau Crefyddol Newydd â 'phrif ffrwd grefyddol'?
3. Pam y gallai ymchwilwyr Mudiadau Crefyddol Newydd ambell dro gael eu cyhuddo o fod yn 'ddiffynyddion cwl't'?

Cyfeiriadau

Anderson, R.M. (1979). *Vision of the disinherited: The making of American Pentecostalism*. New York: Oxford University Press.

Beit-Hallahmi, B. (2001). 'O truant muse': Collaborationism and research integrity. In *Misunderstanding cults: Searching for objectivity in a controversial field*. Ed. T. Robbins & B. Zablocki (pp. 35–70) Toronto: Toronto University Press.

Bellah, R., Sullican, W.M., Swidler, A. & Tipton, S.M. (2008 [1985]). *Habits of the heart: Individualism and commitment in American life*. Berkeley: University of California Press.

Festinger, L., H. Riecken, & Schachter, S. (2008 [1956]). *When prophecy fails*. London: Pinter and Martin.

Jefferies, M. (2015). Noel Edmonds: Death doesn't exist - the planet's biggest problem is electrosmog. In the *Daily Mirror*, 4 August. <http://www.mirror.co.uk/3am/celebrity-news/noel-edmonds-death-doesnt-exist-6194153>

Mae Ddoethuriaeth mewn Astudio Crefydd gan Dr Richard Bartholomew. Testun ei draethawd ymchwil oedd y cyhoeddi a'r diwydiant llyfrwerthu Cristnogol yn y D.U. yng nghyd-destunau prynwriaeth grefyddol a chymunedau cyfryngol. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys canllaw i grefyddau newydd dan y teitl 30-Second Religion (gol. Russell Re Manning, 2011).

Athroniaeth John Hick ar grefydd Jeff Astley

Mae'r erthygl yn archwilio'n feirniadol rai elfennau o feddwl John Hick.

Cyswllt manyleb: WJEC/CBAC RS1/2 CHR: Cyflwyniad i Gristnogaeth (AS), 1. Credoau allweddol; RS1/2 PHIL: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (AS), 3. Drygioni a dioddefaint; 4. Cyflwyniad i brofiad crefyddol; RS3 PHIL: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd (A2), holl adrannau; RS4 HE: Astudiaethau mewn Crefydd a'r Profiad Dynol (A2), Profiad crefyddol a Bywyd, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth [mewn Athroniaeth crefydd]

Roedd John Hick (1922-2012) yn athronydd dylanwadol ar grefydd ac yn ddiwinydd Cristnogol rhyddfrydol a fu'n addysgu ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau (gweler Badham, 1990, 2009; Cheetham, 2009).


Ffydd a phrofiad crefyddol

I'r 'ffiguration crefyddol mawr amlycaf', dadleua Hick, nad yw cred yn Nuw ddim yn ddamcaniaeth eglurhaol, ond yn gred canfyddiadol a dim yn endid casgliadol ond yn brofiad personol o bresenoldeb - '*not an explanatory hypothesis . . . but a perceptual belief . . . [not] an inferred entity but an experienced personal presence*' (Hick, 1970, t. 116). Nid yw ffydd crefyddol, felly, i'w hystyried fel agwedd osodiadol - '*propositional attitude*', yn fater o gredu gosodiadau dadlennol (gwirioneddau trosgynnol), ond fel ffurf ar wybyddiaeth trwy adnabyddiaeth neu wybyddiaeth mewn presenoldeb - '*a form of cognition by*

acquaintance or cognition in presence' (1973, t. 38) - ac felly o ddatguddiad an-osodiadol - '*non-propositional*' o'r Trosgynnol ei hun (1967; 1983, pen. 5).

Mae Hick yn dirnad ffydd crefyddol fel yr elfen ddehongliadol oddi mewn i brofiad crefyddol, yn codi o weithred o ddewis gwybyddol - '*as the interpretative element within religious experience, arising from an act of cognitive choice*' (1974, t. v). Mae'n tynnu ar adnabyddiaeth Ludwig Wittgenstein o rôl yr hyn mae rhywun yn ei weld fel wrth edrych ar lun pos, megis hwyaden-gwningen Jastrow, *fel* naill ai hwyaden neu gwningen (Wittgenstein, 1968, tt. 193-214).

Athroniaeth John Hick ar grefydd



Yn wahanol i Wittgenstein, mae Hick yn ymestyn y categori hwn o weld i gynnwys y weithred o adnabod rhywbeth fel (dyweder) fforc, gan ddadlau na fyddai rhywun o Oes y Cerrig yn gweld cytleri yn y fath ffordd oherwydd ni fyddai ganddyn nhw'r cysyniadau hyn neu gysyniadau diwylliannol eraill fyddai'n berthnasol - *'because they would not have these concepts or other surrounding cultural concepts'*. I Hick, mae gweld popeth yr un peth â gweld rhywbeth fel ...' neu (yn ehangach) 'cael profiad o rywbeth fel ...', oherwydd bod pob profiad ymwybodol yn ymwneud ag adnabyddiaethau sy'n mynd tu hwnt i'r hyn a roddir i'r synhwyr - *'all conscious experiencing involves recognitions which go beyond what is given to the senses'* (Hick, 1974, t. 142; 1985, pen. 2; 2010, t. 65).

Nid yw'r dehongliad-adnabyddol hwn yn resymeg ar wahân sy'n cael ei osod yn rhan o'r profiad, nid yw'n ddamcaniaeth sy'n cael ei gosod yn ôl-weithredol ar ben ffeithiau a gofiwyd, ond y ffordd y mae pethau sy'n cael eu profi mewn gwirionedd ar y pryd (gweler Hick, 1974, t. 143). Mewn crefydd, hefyd, nid fod pobl yn gweld y byd, pobl eraill neu ddigwyddiadau hanesyddol, ac yna'n dadlau am bresenoldeb a phwrpas trosgynnol o'r ffeithiau arsyllol hyn, fel eglurhad iddyn nhw. Maen nhw'n gwled (er enghraifft) y byd *fel* creadigaeth Duw, pobl eraill *fel* plant Duw, a'r Exodus *fel* gweithred achubol Duw. Felly, mae

canfyddiad cyffredin seciwlar yn rhannu cymeriad epistemolegaid cyffredin â phrofiadaeth crefyddol - *'ordinary secular perceiving shares a common epistemological character with religious experiencing'* (1973, t. 42).

Mae Hick yn diffinio'n neilltuol brofiadau crefyddol (neu brofiadau 'cyfriniol': 2008, t. 15) yn eang iawn, fel addasiadau o ymwybyddiaeth wedi ei strwythuro gan gysyniadau crefyddol, ac yn gwrthod y farn bod rhyw brofiad bras, cyffredin sy'n cael ei dehongli'n wahanol yn unol â ffyrdd sy'n ddiwylliannol-gysylltiol (1999, t. 110). Mae'r dehongliad crefyddol eisoes yn rhan o'r profiad.

Mae gwahanol lefelau o ryddid yn nehongliad bodau dynol o'u profiad. Lleiafsymiol yw hyn mewn profiad synhwyrdd, ond mae ar ei fwyaf mewn dehongliad crefyddol (neu o anffyddiaeth) (1974, t. 128; 1989, tt. 160-162; 1999, tt. 167-170). Po fwyaf trymlwythog werthfawr yr ystyr, y mwyaf yw ein rhyddid gwybyddus mewn perthynas ag ef - *'The more value laden the meaning the greater our cognitive freedom in relation to it'* (2000, t. 272). Felly, mae pobl yn mabwysiadu'r modd crefyddol o gyfarganfyddiad, *'the religious mode of apperception'*, trwy weithred o ewylllys neu gyflwr o barodrwydd neu gydsyniad (gweler 1973, t. 143). Ond mae Hick hefyd yn credu bod arweinwyr crefyddol mawr wedi bod yn ddarostyngedig i'r fath brofiadau crefyddol nerthol fel bod rhyddid eu cred yn ymarferol yn llawer mwy cyfyngedig, a hyd yn oed yn meddu ar ansawdd anwirfoddol a gorfodol yn debyg i'r hyn sy'n cael ei fwynhau gan y mwyafrif o bobl â phrofiad synhwyrdd yn unig. Allen nhw ddim mwy na pheidio â chredu yn realiti Duw nac yn realiti'r byd materol - *'They could no more help believing in the*

Athroniaeth John Hick ar grefydd

reality of God than in the reality of the material world' (1970, t. 112).

Mae problem yn ymddangos yma. Os na all y bobl hyn beidio â helpu cael y profiadau crefyddol (profiadau a ddehonglir yn grefyddol) y maen nhw'n eu cael, ym mha achos y mae'r dehongliadau hyn yn agored i ewyllys dynol? Mae Hick yn honni'n aml fod y byd yn grefyddol amwys (yn debyg i lun pos) ac y gellid yn rhesymol ei ddehongli naill ai mewn ffyrdd crefyddol neu naturiolaid. Mae Hick yn gwahaniaethu rhwng (a) dod i ymwybyddiaeth o Dduw, a (b) (wedyn hynny) yn mwynhau'r profiad hwnnw: unwaith y mae pobl wedi caniatáu eu hunain i ddod yn ymwybodol o Dduw o'u gwirfodd, mai'r profiad hwnnw, yn ei lefelau uchaf o ddwysedd, yn orfodol. Mae'n creu'r sefyllfa o'r person sy'n *methu â helpu* credu yn realiti Duw - *'that experience is, at its top levels of intensity, coercive. It creates the situation of the person who cannot help believing in the reality of God'* (1970, t. 114). Er hynny, mae'n bosib y gallwn ddadlau nad oes gan unigolion ond rheolaeth anuniongyrchol dros eu profiadau crefyddol trwy agor eu hunain, o'u gwirfodd yn ôl pob tebyg, i'r dehongliad crefyddol dechreuol.

Amrywiaeth crefyddol a gwirionedd

Wrth ymateb i'w brofiad o amrywiaeth crefyddol, daeth Hick i gofleidio diwinyddiaeth luosogol o grefyddau. Ystyria hyn y cyfan o'r crefyddau mawr fel cyd-destunau dilys o iachawdwriaeth/rhyddhad - *'as authentic and valid contexts of salvation/liberation'*. Mae'r naill a'r llall yn cynnwys ymwybyddiaeth unigryw o wahanol (er yn gorgyffwrdd) yn y pen draw o'r Realiti trosgynnol, fel y caiff ei ganfod trwy "lens"

un o'r traddodiad crefyddol neilltuol (gweler Hick, 1993b, t. 143) gan y pumed dimensiwn o'n natur, y trosgynnol oddi mewn i ni (ein natur ysbrydol), sy'n ateb ac sy'n gwneud i ni ymateb i'r dimensiwn trosgynnol sy'n gorwedd oddi allan i ni (1999, tt. 2, 8-9, 167, 247, 253-254; cf. 1985, 1995, 2007).

Mae Hick yn trin pob profiad crefyddol fel derbyniad ac adwaith neilltuol i ddatguddiad *cyffredinol*. Mae hyn yn gyffredinol 'ar gynnig' oddi wrth y trosgynnol, yr hwn, yn y pen draw, yr oedd Hick yn ffafrio'n syml i'w labelu fel y Real (*the Real*), sydd yn ei berthynas â'r dynol yn weithredol yn hytrach nag yn oddefol. I Hick, mae'r amrywiol grefyddau i gyd yn gymysgedd o ymatebion diwylliannol cyflyredig i realiti uwch a'r ardaraeth cyffredinol o'r Real - *'a mix of culturally conditioned responses to a higher reality and the universal impingement of the Real'* (Cheetham, 2009, t. 307).

Dadleua Hick fod credoau ac ymarferion crefyddol, er eu bod, wrth reswm, yn *wahanol*, yn haeddu'r parch cydradd fel ffyrdd o iachawdwriaeth a disgrifiadau o'r gwirionedd dwyfol. Mae pob un yn cael ei andwyo gan ffaeledau dynol, ond ar yr un pryd yn gallu arwain pobl i'w cyflawniad ysbrydol o farw i'r hunan a phrofi trosgynnaeth. Defnyddia Hick gyfatebiaethau o olau gwyn yr haul yn cael ei blygu i wahanol liwiau'r enfys ('sbectrw m o wahanol grefyddau byd'); ac o grefyddau fel mapiau dynol o realiti dwyfol anfeidrol wedi eu gwneud mewn gwahanol estyniadu (systemau cysyniadol gwahanol) - er bod y mapiau hyn yn ystumio'r realiti hwn, 'gall y cyfan, yn ogystal, fod yn ddefnyddiol i arwain ein taith trwy fywyd - *'all may be equally useful in guiding our journey through life'* (Hick, 2008, t. 12).

Athroniaeth John Hick ar grefydd

Realaeth feirniadol

Gwrthododd Hick y farn bod Duw yn ddim ond symbol neu bresenoldeb estynnol o syniadau ysbrydol (Hick, 2010, t. 31). Yn hytrach, yr oedd yn coleddu barn realydd, trwy gadarnhau bod disgrifiadau o Dduw yn cyfeirio at realiti eithaf sy'n bodoli mewn gwirionedd oddi allan i ymwybyddiaeth ac iaith ddynol. Tra bo trosiadau crefyddol fel Tad yn gallu 'darlunio' Duw ac yn aml yn eithaf agos at gyfatebiaeth (1993a, tt. 42, 100 n. 2), ni ddylid eu trin fel disgrifiadau llythrennol - barn a gysylltir â realaeth naïf sy'n meddwl am Dduw fel un sy'n cael ei ganfod neu ei ddatguddio'n uniongyrchol. Y realaeth *feirniadol* y mae Hick yn ei mabwysiadu (Hick, 1993b, tt. 5-7) yw'r honiad epistemolegol nad ydym yn gwybod pethau (hyd yn oed bethau corfforol) yn uniongyrchol, ond yn unig drwy gyfrwng o ganfyddiad a meddwl, sy'n ddibynnol ar gategoriâu dynol o ddealltwriaeth ac iaith ddynol. Mae ein hymwybyddiaeth ddynol yn gwasanaethu fel hidlydd deongliadol, ac mae'n parhau i ymarfer y rôl yn ein profiad a'n gwybodaeth o Dduw (Hick, 1989, tt. 133, 172-175, 240-249), hyd yn oed yn hidlo'r Trosgynnol a'i leihau i ffurfiau y gallwn ymwneud â nhw - *'filtering out the Transcendent and reducing it to forms with which we can cope'* (2008, t. 24). Er hynny, mae Hick yn rhoi blaenoriaeth i swyddogaeth an-nisgrifiadol iaith grefyddol er mwyn trawsnewid bodau dynol: gall mytholegau gwahanol fod yn ffyrdd dilys bob un o alw, o fewn i fywyd cymuned ffydd neilltuol, hunan-drosgynoldeb mewn perthynas â'r Real - *'different mythologies may each be valid as ways of evoking, within the life of a particular faith community, human self-transcendence in relation to the Real'* (Hick, 1989, t. 375).

Mae realaeth feirniadol Hick yn fwy radical na'r mwyafrif. Mae'n cydio yn y gwahaniaeth a nodwyd gan Immanuel Kant rhwng realiti sy'n ei hanfod anwybyddol yn 'noŵmenol' a'i realiti gwybyddol sy'n 'ffenomenaidd' - yn gwahaniaethu rhywbeth sydd 'ynddo'i hun o sut y mae'n ymddangos i ni trwy ein cyfarpar cysyniadol. Mae Hick yn rhoi'r farn hon (fel na wnaeth Kant) y tu draw i'n profiad o'r byd i brofiad crefyddol gan alw'r realiti 'noŵmenol' sy'n gorwedd tu draw i'r profiad hwn sy'n wrthrych (neu'n destun trosgynnol, yr Eithaf neu'r Real. Mae hyn yn draws gategoriâid: mae'n trosgynnu ein categorïau o ddealltwriaeth a disgrifiad, yn cynnwys ein cyfatebiaethau (1995, tt. 61-71). Mae duwiau personol a'r amhersonol absoliwt mewn crefydd yn ymddangosiadau ffenomenaidd o'r dirgelwch eithaf hwn. Ond wrth wadu y gall y syniad o'r Real gael unrhyw gynnwys (a ellir dweud hyd yn oed ei fod yn ardaro arnom?), a yw Hick wedi tanseilio barn feirniadol y realydd o Dduw (Cheetham, 2009, t. 310; gweler Hick, 1995, pen. 3)?

Ymddiried mewn profiad crefyddol

Diffinia Hick gred resymol fel cred sy'n rhesymol i'r un sy'n ei choleddu i'w chadw, ar bwys y data sydd ar gael iddo (gweler 1970, t. 115; cf. 109). Mae'n cadarnhau egwyddor gyffredinol epistemolegol o ymddiriedaeth feirniadol yn ein profiadau, oni bai fod gennym unrhyw reswm i'w amau (2010, t. 57). Felly mae Hick yn mynnu fod unigolion yn gallu ymddiried yn rhesymol yng ngeirwirdeb eu profiadau crefyddol eu hunain, o leiaf os yw'r rhain yn nerthol: fe fyddai profiad crefyddol sy'n ddigon bywiog yn rhoi'r hawl i berson honni fod adnabod Duw yn rhywbeth real (1974, t. 210; cf. Swinburne, 2004, tt. 303-322).

Athroniaeth John Hick ar grefydd

Ond dim ond ar gyfer profiad crefyddol uniongyrchol yn unig y mae hyn yn berthnasol. Yn achos profiad synhwyrdd (sy'n gyffredinol a chyhoeddus, oherwydd ei fod 'wedi ei orfodi arnom' yn hytrach nag opsiwn y gallwn ymwrthod ag ef) fe allwn hefyd ddibynnu ar yr effeithiau cyd-gefnogol o adroddiadau cronedig gan eraill yn awr a hefyd yn y gorffennol (gweler Goulder a Hick, 1983, tt. 37-38). Ond ni all hyn fod yn berthnasol mewn profiad crefyddol, o leiaf i rywun sydd ddim yn cymryd rhan o gwbl ym maes profiad crefyddol, heb fod â dim gwybodaeth uniongyrchol, waeth pa mor fychan. Fe ddylai person o'r fath aros yn agnostig a neilltuo ei farn (t. 44; cyferbynnir â Swinburne, 2004, t. 322). Felly ar gyfer yr hollol anghyfriniol - os oes rhai i'w cael - nid oes resymau dilys dros goleddu cred grefyddol - *'for the absolutely un-mystical – if such there are – there can be no good grounds for religious belief'* (2008, t. 29).

Gallwn ychwanegu mwy o brofion eto at y rhai sy'n honni eu bod wedi cael profiad crefyddol, fel pa un ai yr ydym yn eu hystyried yn bersonau llawn pwyll, sobr a rhesymol, yn cynnwys a yw eu honiadau'n gyson â'n gwybodaeth arall yn seiliedig ar weddill ein profiadau (2008, t. 28). Ond daeth Hick i ystyried y meini prawf allweddol er gwahaniaethu rhwng profiadau crefyddol geirwir neu rai rhithiol (1999, t. 163) i fod yn effeithiau ar fywyd dynol. Mae'r iachawdwriaeth/rhyddhad sy'n swyddogaeth crefydd i hwyluso, yn drawsffurfiad dynol sydd yn cynnwys, fel un o'i agweddau, ddaioni moesol - *'The salvation/liberation which it is the function of religion to facilitate is a human transformation which . . . consists,*

as one of its aspects, in moral goodness' (1989, t. 309) neu gymeriad ysbrydol (1995, t. 77); gellir barnu crefyddau yn unig, felly, yn unol â'u ffrwythau dynol. Mae beirniaid (Cristnogol) Hick yn ddeifiol eu barn nad yw hyn yn setlo'r cwestiwn am y gwirionedd, yn hynny o beth bod un *amcan* o wir grefydd wedi ei gamgymryd am *faen prawf o wirionedd* mewn crefydd. Ond mae ef yn ymateb trwy ddweud nad yw 'gwirionedd achubol' yn cymharu â ffurfiau eraill o wirionedd, ac yn haeru bod y gwirionedd a berthyn i grefydd yn cynnwys yn ei rym i ddod â phobl at y realiti eithaf sy'n cael ei alw'n Dduw gennym, ac felly gynhyrchu ynddyn nhw y math o ffrwyth a gaiff ei barchu gan y crefyddau yn y bywyd hwn (gweler Okholm a Phillips, 1996, tt. 61, 78, 87, 185).

Problem drygioni

Mae ymateb Hick i'r her y mae drygioni yn ei gosod i'r gred mewn creawdwr hollalluog a llawn cariad yn cynnwys llawer elfen, yn cynnwys y theodiciaeth '*vale of soul-making*'. Dadleua hyn bod twf mewn rhinweddau moesol ac ysbrydol angen amgylchedd lle mae anawsterau, peryglon a dioddefaint gwirioneddol, yn hytrach na chawell diogel ar gyfer anifail anwes sy'n cael ei faldodi, neu Dduw sy'n ymyrryd i amddiffyn ei greaduriaid rhag niweidiau a achosir gan Natur ac eraill (gweler Astley, 2013). Mae'r byd peryglus hwn yn ffurfio rhan o'r hyn y mae'n ei labelu y theodiciaeth 'Irenaeaidd', mewn gwrthgyferbyniad i'r traddodiad 'Awstinaidd'. Mae'r siart hwn yn crynhoi adroddiad Hick o'u cyferbyniadau a'u cydwelediadau (cf. Hick, 1968, pen. XII).

'AWSTINAIDD'

(e.e. Awstin, Aquinas, Calvin, Leibniz, a llawer o adroddiadau traddodiadol Catholig a Phrotestannaidd)

Mae cyfrifoldeb am ddrygioni yn gorwedd ar fodau sydd wedi eu creu (angylion a/neu fodau dynol) sydd wedi camddefnyddio'u rhyddid. Ei bai yw drygioni moesol, a drygioni naturiol yw'r canlyniad anochel (cosb) am y drygioni moesol hwnnw.

Mae'r traddodiad hwn yn apelio at rai safbwyntiau metaffisegol:

- mae drygioni yn 'an-fodol' (daioni yn unig y mae Duw yn ei greu; drygioni yw daioni yn mynd o chwith neu sydd i'w ddarganfod lle mae pethau ar eithafion bodolaeth);
- tra bo rhai rhannau'n gallu bod yn hyll, mae'r darlun cyflawn yn harddach o ganlyniad i'r cyferbyniad;
- 'yr egwyddor o gyflawnder' (mae'n well i Dduw greu ar bob lefel o fodolaeth, fel bo'r bydysawd cyn llawned ag y gall fod o fodau -yn cynnwys y rhai sy'n dioddef oherwydd drygioni neu'n ei achosi).

Mae perthynas Duw â'r bydysawd yn amhersonol. Caiff bodau dynol eu creu i gwblhau'r rhestr o'r math o fodau.

Yn edrych yn ôl i'r gorffennol (y Cwmp) yn eglurhad i darddiad drygioni.

IRENAEAIDD'

(e.e. Irenaeus, Schleiermacher, Tennant, a llawer o adroddiadau modern rhyddfrydol)

Caiff ei adnabod yn ddiamheuol mai **Duw yn y pendraw sy'n gyfrifol am ddrygioni yn y bydysawd.** Drygioni moesol yw bai bodau dynol rhydd y mae Duw wedi eu creu ac sy'n caniatáu iddyn nhw i bechu. Mae Duw yn fwriadol wedi gosod drygioni naturiol yn y byd i greu'r amgylchfyd gorau ar gyfer creu eneidiau.

Nid oes unrhyw safbwyntiau metaffisegol yn perthyn i'r traddodiad hwn.

Mae perthynas Duw â'r bydysawd o anghenraid yn bersonol. Caiff bodau dynol eu creu er mwyn cael brawdoliaeth â Duw.

Yn edrych tuag at y dyfodol (nefoedd) ar gyfer y diwedd cyfiawn, wrth i Dduw ddwyn daioni allan o ddrygioni.

Athroniaeth John Hick ar grefydd

Mae'r Gwyp yn ganolog i'r

theodiciaeth hon: Cafodd Adda (Dyn) ei greu'n berffaith mewn byw mewn byd perffaith, ond a bechodd yn fwriadol.

Nid yw'r byd presennol yn debyg i'r hyn y mae Duw yn bwriadu iddo fod.

Fe ddylai fod yn baradwys heb ddiodefaint, ac mae bodau dynol angen cael eu hachub rhagddo trwy ras Duw.

Bydd ein hymddygiad yn y byd hwn yn penderfynu ***ein cyrchfan ddiwethaf yn y nefoedd neu uffern.***

Mae'r Gwyp yn llai pwysig, neu'n

cael ei wadu'n llwyr. Dadleua rhai pobl bod Cwyp Adda fel pechod plentyn; tra bo eraill yn dadlau bod y ddyndoliaeth wedi ei chreu yn 'gwympedig' neu a esblygodd i fod felly. (Lawr fan hyn ym mwd y byd, gallwn ddweud, ein bod yn rhydd i dyfu tuag at Dduw heb gael ein gorlethu gan unrhyw wybodaeth uniongyrchol o'r natur ddwyfol.)

Mae'r byd, fwy neu lai, sut y

bwriadodd Duw iddo fod. Mae'n fyd â themtasiynau real a pheryglon: yr unig fath o fyd lle gallwn ynddo ddatblygu o'n gwirfodd, ffydd a rhinweddau, a dysgu ufudd-dod trwy ddiodefaint, mewn cydweithrediad â gras Duw.

Mae'r traddodiad hwn yn ***fwy tebygol o wrthod y syniad o uffern.*** Yn y diwedd bydd popeth yn cael ei achub, efallai trwy broses barhaol o greu eneidiau ar ôl marwolaeth.

(Astley, 2000, tt. 65-66)

I weld beirniadaethau o'r theodiciaeth Irenaeidd ac ymatebion Hick, gweler Hick 1973, pen. 4 a 5; 1977, tt. 372-384; Hick et al., 2001.

Oherwydd bod gennym ryddid dynol real (1983, tt. 41-42; 2006, pen. 10), ni ellir gwarantu ein gweithredoedd iawn; ond bydd amynedd dwyfol yn disgwyl ein sancteiddiad cynyddol ar ôl marwolaeth – *[our] 'progressive sanctification after death'* (1968, tt. 383-384) trwy gyfres o ailenedigaethau/ôl-fywydau atgyfodedig mewn amgylcheddau corfforol (efallai

mewn bydysawdau eraill), hyd nes y bydd pob un ohonom yn cyflawni ein potensial ysbrydol o hunanoldeb trosgynnol, ac (mewn cyflwr an-ymgorfforol) rywfodd yn unedig gyda'r Real (1976, rhan V; 2006, pen. 18). Er bod uffern yn fygythiad gwirioneddol i unrhyw un a fyddai yn y diwedd yn golledig, yn y diwedd ni fydd neb yn mynd iddo: mae uffern yn bodoli, ond mae'n wag - *'hell exists, but is empty'* (1973, t. 72).

Athroniaeth John Hick ar grefydd

Geirfa

Epistomoleg (epistemology) - damcaniaeth gwybodaeth.

Drygioni moesol (moral evil) - poen a dioddefaint a achosir gan asiantaethau dynol.

Drygioni naturiol (natural evil) - poen a dioddefaint a achosir gan Natur.

Naturiolaidd (naturalistic) - cau allan bob eglurhad ysbrydol neu oruwchnaturiolaidd.

Theodiciaeth (theodicy) - cyfiawnhad o gyfiawnder Duw yng ngoleuni'r drygioni sydd yn y byd.

Trosgynnol (transcendent) - yr hyn sy'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau ein bodolaeth a'n profiad.

Cysylltau

http://people.bu.edu/wildman/bce/mwt_themes_875_hick.htm (The Boston Collaborative Encyclopedia of Modern Western Theology)

<http://www.iep.utm.edu/hick> (Internet Encyclopedia of Philosophy)

<http://www.johnhick.org.uk/jsite> (John Hick: The Official Website)

<https://www.youtube.com/watch?v=C79JmHZ4QB8> (David Cheetham on John Hick)

Pwyntiau trafod

1. A yw amddiffyniad Hick o resymeg cred grefyddol yn llwyddiannus?
2. Sut mae Hick yn egluro'r amrywiaeth mewn cred grefyddol?
3. Beth yw cryfderau a gwendidau'r 'Theodiciaeth Irenaeidd'?
4. Sut mae barnau Hick yn herio cred Gristnogol draddodiadol?

Cyfeiriadau

- Astley, J. (2000). *God's world*. London: Darton, Longman & Todd.
- Astley, J. (2013). Evil and suffering. *Challenging Religious Issues*, 2, 2-8 <http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/Aleveljournal.html>
- Badham, P. (1990). The philosophical theology of John Hick. In *A John Hick reader* (tt. 1-14). Ed. P. Badham, Basingstoke: Macmillan.
- Badham, P. (2009). John Hick. In *Twentieth-century philosophy of religion* (tt. 233-244). Eds. G. Oppy & N.N. Trakakis, Durham: Acumen.
- Cheetham, D. (2009). John Hick. In *Blackwell Encyclopaedia of Theologians* Vol. 2 (tt. 294-311). Ed. I. Markham, Oxford: Blackwell.
- Goulder, M. & Hick, J. (1983). *Why believe in God?* London: SCM Press.
- Hick, J. (1967). Revelation. In *The Encyclopedia of philosophy*, vol. 7 (tt. 189-191). Ed. P. Edwards, London: Collier Macmillan.
- Hick, J. (1968, 1977). *Evil and the God of love*. London: Collins.
- Hick, J. (1970). *Arguments for the existence of God*. London: Macmillan.
- Hick, J. (1973). *God and the universe of faiths: Essays in the philosophy of religion*. London: Macmillan.
- Hick, J. (1974). *Faith and knowledge*. London: Collins.
- Hick, J. (1976). *Death and eternal life*. London: Collins.
- Hick, J. (1983). *Philosophy of Religion*. Englewood Cliffs, NJ: Prentice-Hall.
- Hick, J. (1985). *Problems of religious pluralism*. Basingstoke: Macmillan.
- Hick, J. (1989). *An interpretation of religion: Human responses to the transcendent*. Basingstoke: Macmillan.
- Hick, J. (1993a). *The metaphor of God incarnate*. London: SCM Press.
- Hick, J. (1993b). *Disputed questions in theology and the philosophy of religion*. New Haven, CT: Yale University Press.
- Hick, J. (1995). *The rainbow of faiths: Critical dialogues on religious pluralism*. London: SCM Press.
- Hick, J. (1999). *The fifth dimension: An exploration of the spiritual realm*. Oxford: Oneworld.
- Hick, J. (2000). The religious meaning of life. In *The meaning of life in the world religions* (tt. 269-286). Eds. J. Runzo & N.M. Martin, Oxford: Oneworld.
- Hick, J. (2006). *The new frontier of religion and science: Religious experience, neuroscience and the transcendent*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Hick, J. (2007). Religious pluralism. In *The Routledge companion to philosophy of religion* (tt. 216-225). Eds. C. Meister & P. Copan, London: Routledge.

Athroniaeth John Hick ar grefydd

- Hick, J. (2008). *Who or what is God? And other investigations*. London: SCM Press.
- Hick, J. (2010). *Between faith and doubt: Dialogues on religion and reason*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Hick, J. et al. (2001). An Irenaean theodicy. In *Encountering evil: Live options in theodicy* (tt. 38-72). Eds. S.T. Davis, Louisville, KY: Westminster John Knox Press.
- Okholm, D.L. & Phillips, T.R. (Eds.) (1996). *Four views on salvation in a pluralistic world*. Grand Rapids, MI: Zondervan.
- Swinburne, R. (2004). *The existence of God*. Oxford, Clarendon Press.
- Wittgenstein, L. (1968). *Philosophical investigations*. Oxford: Blackwell.

Y Parchedig Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy y Profiad Crefyddol ac Ysbrydol ym Mhrifysgol Glyndŵr, ac mae'n Athro er anrhydedd ym Mhrifysgolion Durham a York St John. Ei lyfr diweddaraf yw What do we believe? Why does it matter? (SCM Press, sydd ar fin cael ei gyhoeddi).

Iesu Hanes a Christ y Ffydd

Peter Watts

Mae'r erthygl hon yn archwilio maint yr hyn y gallwn ni ei wybod am Iesu fel ffigur hanesyddol ac mae'n amlinellu'r ffordd y gwnaeth 'Iesu hanes' gyfodi yn wahanol i 'Grist y ffydd' o eiddo'r eglwys yng nghyfnod yr Ymoleuo. Ar ôl trafod goblygiadau'r rhaniad hwn i Gristnogaeth, bydd yr erthygl yn edrych a yw'n bosib dwyn Iesu hanes a Christ y ffydd yn ôl at ei gilydd oddi mewn i'n dealltwriaeth nodweddiadol ni yn yr unfed ganrif ar hugain o'r hyn sy'n hanesyddol a'r hyn sydd ddim.

Cyswllt manylebau: WJEC/CBAC AC3/RS3 CHR: Cyflwyniad i Gristnogaeth (A2), 2. Dadleuon Cristolegol Cyfoes; AC3/RS3 AB/BS: Cyflwyniad i Astudiaethau Beiblaidd (A2), ADRAN B: Cyflwyniad i'r Testament Newydd, 2. Arwyddocâd yr Atgyfodiad i'r Eglwys Fore.

Cyflwyniad

Yn y Testament Newydd mae Iesu'n holi ei ddisgyblion, 'pwy, meddwch chi ydwyf fi?' (Marc 8:29; Mathew 16:15; Luc 9:20) a saif y cwestiwn 'pwy oedd Iesu?' yng nghalon Cristnogaeth. Fel mater o ffaith, yn achos merthyron o'r disgyblion ymlaen bu'r ateb yn fater o fyw a marw.

Mae'r mater hefyd wedi cynhyrchu llawer o ddadleuon mewn manau eraill, nid y lleiaf trwy'r amrywiol ddamcaniaethau cynllwyn ynghylch a oedd gan Iesu wraig a phlant. Ond ar gyfer rhai mae'r cwestiwn 'pwy oedd Iesu?' yn rhywbeth na ddaw dim ohono: doedd Iesu'r Efengylau yn syml ddim yn bodoli. Mae 'Mythegwyr Iesu' fel y gelwir hwy, sy'n dal at y safiad hwn yn cynnwys Robert M. Price a G. A. Wells, ond

bychan yw'r gefnogaeth a gaiff hyn ymysg haneswyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr ystod o ffynonellau sy'n cyfeirio at Iesu o fewn cyfnod byr o amser ar ôl ei farwolaeth - nid yn unig y Testament Newydd, ond hefyd yr hanesydd Rhufeinig, Tacitus, a'r hanesydd Iddewig, Josephus. Mae Bart Ehrman, y brig-awdur a'r ysgolhaig Beiblaidd Americanaidd, sy'n agnostig ac sy'n dadlau nad oes fawr o werth hanesyddol i'r Efengylau, yn dweud peth fel hyn: pa beth bynnag arall y byddwch yn ei feddwl am Iesu, yn sicr, roedd yn bodoli - *'whatever else you may think about Jesus, he certainly did exist'* (Ehrman, 2013, t. 4). Yn hytrach, mae'r ddadl sy'n cwmpasu'r cwestiwn 'pwy oedd Iesu?' yn ymwneud ag a yw'r Iesu

lesu Hanes a Christ y Ffydd

Grist sydd wedi cael ei addoli gan Gristnogion am dros ddwy fil o flynyddoedd, a thrwy'r byd heddiw, yn ddisgrifiad hanesyddol cywir o'r Iesu a fu'n troedio'r ddaear hon yn ystod y ganrif gyntaf. Neu, i ddefnyddio'r termau a gyflwynwyd gan y diwinydd o'r Almaen, Martin Kähler yn y flwyddyn 1892, ac a fabwysiadwyd gan ysgolheigion byth ers hynny: i raddau y mae 'Iesu hanes' yn cyfateb i 'Grist y ffydd'?

Pwy yw Crist y ffydd?

Gellir cael hyd i ddisgrifiad cynrychiadol o Grist y ffydd yng Nghredo'r Apostolion, sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ers o leiaf y bedwaredd ganrif, ac sy'n parhau i gael ei adrodd yn rheolaidd mewn eglwysi heddiw: 'Credaf yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd. Fe'i cenedlwyd trwy rym yr Ysbryd Glân, a'i eni o'r Wryf Mair. Dioddefodd dan Pontius Pilat, fe'i croeshoeliwyd, bu farw, ac fe'i claddwyd. Disgynnodd i blith y meirw. Ar y trydydd dydd fe atgyfododd. Fe esgynnodd i'r nefoedd, ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad. Fe ddaw drachefn i farnu'r byw a'r meirw.' Cafodd datganiadau o gred fel hyn eu ffurfio trwy chwys a llafur trafodaethau a dadleuon tanbaid ymysg diwinyddion blaengar y dydd, ac maen nhw'n darparu ateb taclus i'r cwestiwn 'pwy oedd Iesu?' yn union oherwydd bod hyn yn agwedd allweddol ar y ffydd Gristnogol. Cafwyd hyd i'r deunydd ffynhonnell yn y Testament Newydd, ac yn arbennig yn yr Efengylau, ond mae'r ymdrech yr oedd ei hangen i gynhyrchu'r credoau yn dangos sut mae materion sy'n ymwneud â Christoleg - yn fwyaf arbennig, sut y dylid dirnad Iesu mewn perthynas â Duw ei Dad - ddim o reidrwydd yn hunaneglur yn y Beibl. Y mater yn y fantol yn achos y cenedlaethau cynnar o Gristnogion oedd

nid yn gymaint a oedd testunau'r Testament Newydd yn hanesyddol gywir, ond sut yr oedd yn bosib sefydlu dealltwriaeth wir a chlr am Iesu o'r amrywiol Efengylau ac epistolau.

Genedigaeth Iesu hanes

Newidiodd y sefyllfa hon yn ddramatig gyda dyfodiad yr 'Ymoleuo'. O'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen dadleuwyd yn gryf ynghylch y rhagdybiaeth eang bod yr Efengylau'n gofiannau cywir am Iesu. Ynghyd ag amheuaeth ynghylch traddodiad – yn arbennig un yr Eglwys – fe ddygodd yr 'Ymoleuo' y dymuniad i ail-ymweld â hanes mewn termau rhesymegol a gwyddonol wedi eu diffinio'n gaeth. Ac yn sicr roedd gan hanesydd yng nghyfnod yr Ymoleuo lawer i fynd i'r afael ag o yn storïau'r Efengylau am Iesu, sy'n llawn o bethau 'annaturiol' fel gwyrthiau a bwrw allan gythreuliaid ac ysbrydion drwg. Dadleua Geza Vermes o ganlyniad, fod diwedd wedi dod ar ffydd ddi-gwestiwn yng ngwirionedd llythrennol yr Efengylau ym mlynnyddoedd olaf yr 1800au - *'blind faith in the literal truth of the Gospels ended . . . in the late 1800s'* (Vermes, 2007); erbyn hynny roedd yr ysgrythurau wedi dod yn wrthrychau dilys i'w profi yn yr un modd â hanes (i'w alw ar ôl hynny yn feirniadaeth hanesyddol) oedd yn cael ei ddefnyddio gyda thestunau eraill ac roedd y safbwynt traddodiadol am Iesu Grist wedi dod dan ymosodiad dwys.

Yn y ffordd yr oedd cyfnod yr Ymoleuo yn ystyried pethau, daeth Crist y ffydd i gael ei ddirnad fel rhagamcaniad camarweiniol ar y ffigur hanesyddol oedd Iesu a ddeilliodd o brofiadau emosiynol afresymol y disgyblion a chanlynwyr cynnar Iesu ar ôl ei farwolaeth. Y dasg oedd mynd tu hwnt i naratifau'r Efengylau i ailgynhyrchu cofiant hanesyddol diffiniol o Iesu; dim

Iesu Hanes a Christ y Ffydd

ond yr Iesu hwn y gellid ei ystyried yn 'real' neu'n 'wir'. Buan iawn y daeth goblygiadau hyn yn glir: Pan gyflwynodd Reimarus, athro o'r Almaen, esboniadau amgen yng nghanol y ddeunawfed ganrif, am amrywiol benodau ym mywyd Iesu, ei fwriad oedd nid yn unig cyflwyno'r gwirionedd am yr Iesu hanesyddol ond dangos bod Cristnogaeth draddodiadol wedi ei chamarwain (sydd yn egluro pam y dewisodd Reimarus beidio â chyhoeddi ei draethodau ar y testun hwn yn ystod ei fywyd). Yn sgil Reimarus daeth cynigion eofn eraill i fynegi beth y gellid *mewn gwirionedd* ei ddysgu am Iesu.

Canolbwyntiodd D. F. Strauss (1808-74), er enghraifft, ar herio'r hanesyddoldeb y gwrthiau a gofnodir yn yr Efengylau, tra roedd Ernest Renan (1823-92) yn creu darlun o Iesu fel athro moesol mawr, ond yn fawr ddim mwy na hynny. Ar yr un llaw, pe nad oedd Iesu y person yr honnai'r Efengylau a'r eglwys ei fod, yna ni allai ffydd Gristnogol draddodiadol sefyll, ac eto roedd gan y tri ysgolhaig hyn hefyd agenda cadarnhaol: roedden nhw'n gobeithio y byddai eu portreadau o'r Iesu hanesyddol yn gymorth i'r eglwys ail-ddyfeisio'i hun ar gyfer yr oes fodern.

Nid Cristnogion yn unig, sut bynnag, sydd â chymhelliad i gyhoeddi pwy mewn gwirionedd yw Iesu. Mae hyn yn amlwg yr holl ffordd hyd at Richard Dawkins, sydd yn meddu ar fwy o frwdfrydedd na llawer o Gristnogion i unioni unrhyw gamsyniad am Iesu - o leiaf o'i safbwynt ef. Nid yw hyn yn unig ynghylch ail-werthuso gwaddol unigolyn, fel oedd yr achos yn ddiweddar pan ddaeth yn amlwg fod gogoniant a oedd yn perthyn i Lance Armstrong ym myd chwaraeon yn ddibynnol ar gymorth cemegol a gweithred enfawr o guddio'r beiau. Yn hytrach, mae ail-ysgrifennu cofiant Iesu yn golygu ail-ystyried hanes biliynau o bobl sydd â'u bywyd wedi ei

ffurfio gan y gred Gristnogol fod Iesu wedi cael ei eni o'r Forwyn Fair, wedi marw dros bechodau'r byd, wedi atgyfodi drachefn ac a fydd yn barnu'r byw a'r meirw. A yw ffydd y cyfan o'r Cristnogion hyn yn dwyll, ac a yw eu bywydau wddi eu camarwain os yw haneswyr yn gallu sefydlu nad yw Iesu yr un y mae'r Efengylau'n dweud ei fod? Neu, fel mae rhai tebyg i Reimarus wedi awgrymu, a yw cenedlaethau o Gristnogion wedi bod yn unigolion a dwyllwyd yn ddjarwybod ynghylch triniaeth fwriadol o'r gwirionedd am yr Iesu hanesyddol, twyll a ddigwyddodd er mwyn cynorthwyo'r grefydd Gristnogol i dyfu mewn dylanwad a nerth?

Gall fod yn syndod i chi ddeall fod y diwinydd a fu'n delio gyda'r mwyaf o ddylanwad â'r cwestiwn o Iesu hanes wedi dod yn un o genhadon Cristnogol enwocaf yr ugeinfed ganrif, er gwaethaf y ffaith iddo ddod i'r casgliad nad oedd Iesu y bod dynol perffaith a'r ffigur dwyfol oedd yn cael ei bortreadu gan yr eglwys. Camwch ymlaen Albert Schweitzer - diwinydd, meddyg, athronydd, cerddolegydd ac un a oedd yn meddu ar fwstas gwirioneddol drawiadol. Yn neilltuol, awgrymodd Schweitzer bod Iesu yn ei safbwynt yn gwneud camgymeriad am ddiwedd y byd oedd ar ddyfod a'i fod wedi marw'n fethiant oherwydd nad oedd wedi peri teyrnas Dduw ar y ddaear. Unwaith yn rhagor, fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfan gwbl negyddol yn ei arwyddocâd i Gristnogaeth. Yng ngoleuni ymchwil Schweitzer a'i gofiant personol, gwêl rhai ysgolheigion hyn fel rhywbeth cadarnhaol i wahanu Iesu hanes a Christ y ffydd: gan ddadlau bod agweddau canolog y ffydd Gristnogol, fel yr atgyfodiad, i'w dirnad nid drwy archwiliad hanesyddol ond trwy ffydd, ac o'r herwydd caiff Cristnogaeth ei diogelu

lesu Hanes a Christ y Ffydd

rhag yr amrywiol gynigion i ail-ddiffinio lesu hanes. Fel yr ysgrifennodd Schweitzer: *'Jesus means something to our world because a mighty spiritual force streams forth from him and flows through our time also. This fact can neither be shaken nor confirmed by any historical discovery'* (Schweitzer, 2000, t. 479).

Yn ogystal â chyflwyno ei farn ei hun am lesu, gwerthusodd Schweitzer y cynigion cynharach hynny i ddarganfod lesu hanes, a oedd wedi arwain at gymaint o amrywiaeth o 'lesuau'. Daeth Schweitzer i'r casgliad mai 'camgymeriad' y rhai oedd yn ymwneud ag ef, oedd tybio y gallai lesu fod yn golygu mwy i'n cyfnod ni trwy iddo ddod i mewn iddo yn ddyn fel ninnau – *'to suppose that Jesus could come to mean more to our time by entering into it as a man like ourselves.'* (Schweitzer, 2000, t. 479). Dyma syniad sydd yn fwy adnabyddus i ni trwy ddisgrifiad coeth George Tyrrell o ysgolhaig beiblaidd sy'n syllu i mewn i ffynnon ac yn dod o hyd i'r lesu hanesyddol ac yn cloi trwy ddisgrifio adlewyrchiad gwan ohono'i hun (Tyrrell, 1963, t. 49). Mewn geiriau eraill, roedd cynigion rhesymol a gwrthrychol tybiedig i ddisgrifio'r lesu hanesyddol yn gogwyddo tuag at y diwylliant a'r cyd-destun neilltuol yr oedd yn codi ynddyn nhw. Neu, fel y mae Dale Allison wedi awgrymu'n fwy diweddar, *'we wield our own criteria to get what we want'* (Allison, 2009, t. 59).

Er gwaethaf y broblem hon, mae'r ymchwiliad i'r lesu hanesyddol yn parhau yn yr 21ain ganrif heb unrhyw arwydd ei fod yn colli ei blwc nac yn cyrraedd at gonsensws. Mae cytundeb llac ar y lleiafswm y gellir ei ystyried yn hanesyddol gywir oddi mewn i'r Efengylau canonaid, fel arfer fod lesu yn byw yn y pentref bach Galileaid o'r

enw Nasareth ar ryw gyfnod yn ei fywyd, ei fod wedi cael ei fedyddio a'i groeshoelio Y tu hwnt i hyn mae'r darlun o lesu o Nasareth sy'n dod i'r amlwg yn hynod amrywiol - yn amrywio o ddyn doeth crwydrol neu bregethwr diwygiad cymdeithasol, i broffwyd o ddinistr sy'n agos. Mae'r ymchwiliad am adroddiad *diffiniol* o fywyd hanesyddol ac athrawiaeth lesu felly, yn parhau mewn bodolaeth.

A yw'n bosib cymodi lesu hanes a Christ y ffydd?

Ymhle y mae hyn oll yn gadael Crist y ffydd – ar wahân i ddangos fod llawer yn credu bod y realaeth am lesu hanes yn wirioneddol wahanol? Yn y fan hyn mae angen i ni ddilyn Schweitzer a chymryd golwg feirniadol o'r astudiaethau amrywiol ynghylch yr lesu hanesyddol. Oherwydd yn yr amrywiol bortreadau o'r lesu hanesyddol heddiw mae rhywbeth sy'n cael ei rannu'n gyffredin gan lawer: Nid yn unig *nad yw'r* ymgnawdoliad (h.y. Duw yn dod yn ddyn trwy eni gwyrthiol morwyn), y gwyrthiau a'r atgyfodiad i'w hystyried yn rhan o fywyd yr lesu hanesyddol ond *na allan nhw* fod yn hanesyddol. Trwy lynu at y ddealltwriaeth 'Ymoleuol' o hanes mae'n ymddangos y bydd rhaid bod yna hafn ddi-bont bob amser rhwng lesu hanes a Christ y ffydd o'r dechrau. Dyma sut y mae Roland Deines yn disgrifio'r sefyllfa: *'History and faith can live peacefully together so long as they are divorced from each other, as long as faith-based claims about certain occurrences are clearly demarcated as confessional statements only'* (Deines, 2013, t. 18). Ond bydd y berthynas rhwng lesu hanes a Christ y ffydd bob amser yn aros yn gwestiwn beirniadol i Gristnogaeth oherwydd mae'n grefydd sydd wedi ei chanoli ar yr argyhoeddiad bod Duw yn gweithredu mewn hanes.

lesu Hanes a Christ y Ffydd

Mae ffydd yn Nuw yn perthnasu â ffydd yn ei weithredoedd ac mae'r rhain yn ganolog i'r ffigur o'r ganrif gyntaf, Iesu o Nasareth. I'r mwyafrif o Gristnogion, er enghraifft, mae'n wirioneddol bwysig fod yr atgyfodiad wedi bod yn ddigwyddiad hanesyddol, syniad a gafodd ei fynegi gan yr apostol Paul i Gristnogion y ganrif gyntaf yng Nghorinth: 'Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd. Y mae'n dilyn hefyd fod y rhai a hunodd yng Nghrist wedi darfod amdanynt. Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r mwyafr truenus ymhlith dynion. (1 Corinthiaid 15:17-19).'

Un ysgolhaig sydd *wedi* bod yn fodlon mynd i'r afael â'r berthynas rhwng Iesu hanes a Christ y ffydd yw Joseph Ratzinger. Mae'r ffaith bod Ratzinger yn fwy adnabyddus fel y Pab (bellach yn Emeritws) Benedict XVI yn golygu nad yw'n syndod ei fod eisiau dal ynghyd Iesu hanes a Christ y ffydd. Eto i gyd, mae'r modd y mae'n mynd ati yn arwyddocaol i'r ddadl yn gyfan gwbl. Dadleua Ratzinger, '*[if] Jesus [was] a failed religious leader he would remain purely human, and his authority would extend only so far as his message is of interest to us*' (Ratzinger, 2011, tt. 241-242). Mewn geiriau eraill, os nad yw Iesu rywfodd yn perthnasu i Dduw a'i fod yn gyfyngedig i'n safonau ni yn gyffredin am yr Ymoleuo ynghylch hanes a gwrthrychedd, yna nid oes unrhyw ffordd y gall yr Iesu hwn fod yn bwysig. (Efallai y byddwch yn gyfarwydd â thebygrwydd neilltuol yma i honiad diffyniadol enwog C.S. Lewis bod Iesu naill ai'n orffwyll, yn ddrwg neu'n Dduw – '*Jesus is either mad, bad or God*'.) Yn

hytrach, awgryma Ratzinger, er mwyn deall yr Iesu hanesyddol mae'n bwysig deall yr hyn a olygai i Iesu, yn ei oes ei hun, i gael ei fywyd wedi ei ffurfio'n gyfan gwbl gan ei berthynas agos â Duw. A chan mai'r gred yw bod Duw wedi atgyfodi Iesu o farw, mae hynny'n golygu ei fod cyn bwysiced ag y mae yn y byd heddiw, yna bydd yn ofynnol i unrhyw hanes am Iesu gynnig mynd i'r afael â hyn - hyd yn oed os bydd raid i'r atgyfodiad gael ei weld fel ddigwyddiad o'r fath newydd sbon - '*an event of an entirely new kind*' (Ratzinger, 2011, t. 275) mewn hanes. Yn y ffordd hon, mae Ratzinger yn annog bod Duw rywfodd yn cael ddwyn yn ôl i'r darlun pan ddaw hi'n amser i ystyried hanes ac felly'r Iesu hanesyddol.

Casgliad

Efallai bod yr erthygl hon wedi codi cynifer o gwestiynau â'r rhai y mae'n drafod: Sut rydym yn asesu beth sy'n hanesyddol a beth sy'n real, yn ystyrllon a gwir? A oes gan y ffydd Gristnogol sylfaen hanesyddol resymol? Mae ymchwilio i faterion mawr fel y rhai hyn yn gwneud archwilio beiblaidd yn gyffrous, a dyna pam mae'r cwestiwn am Iesu hanes a Christ y ffydd wedi aros yn destun brwd am 300 o flynyddoedd. Ond rwy'n gobeithio ei fod bellach wedi dod yn eglur wrth ddod i drafod y mater hwn, fod angen i ni fod yn feiriadol effro o sut rydym yn deall yr hyn sy'n hanesyddol a'r hyn sydd ddim: mae'r hyn a ddarganfyddwn am Iesu yn dibynnu'n helaeth ar yr hyn sydd heb ei fynegi ac yn aml y cyfyngiadau anghydnabod y byddwn yn dechrau'r ymchwil gyda nhw.

Iesu Hanes a Christ y Ffydd

Geirfa

Cyfnod oedd *yr Ymoleuo* a oedd yn ymestyn o flynyddoedd cynnar yr ail ganrif ar bymtheg hyd at flynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif, pryd y bu cyffro mawr yn y meddwl a diwylliant Gorllewinol o

ganlyniad i ailwerthusiad crefydd, athroniaeth, gwyddoniaeth a gwleidyddiaeth, yn gydnaws â phwyslais newydd ar oruchafiaeth rhesymu dynol.

Cysylltau

<http://www.earlychristianwritings.com/theories.html> (Early Christian Writings: Historical Jesus Theories)

https://en.wikipedia.org/wiki/Historical_Jesus (Wikipedia)

<https://www.youtube.com/watch?v=LELzek1FWgk&list=PL46F46C0CECF1364B&index=54> (Department of Theology and Religious Studies, University of Nottingham, 'Why Study...?' Video Series: Jesus Christ)

Pwyntiau trafod

1. A ydych o'r farn ei bod hi'n bwysig pe byddai gwahaniaeth yn cael ei ddarganfod rhwng Crist y ffydd ac Iesu hanes? Os felly pam; os nad felly pam?
2. I ba raddau y mae'r Efengylau yn hanesyddol ddibynadwy? Efallai y bydd o gymorth i chi roi ystyriaeth i gwestiynau perthnasol fel 'pa bryd y cawson nhw eu hysgrifennu?',

- 'pwy wnaeth eu hysgrifennu?' a 'beth oedd eu pwrpas?'
3. A yw caniatáu bod y *posibilrwydd* fod Duw yn weithredol yn Iesu a thrwyddo yn newid y modd y dylem ddeall Iesu hanes?

Iesu Hanes a Christ y Ffydd

Cyfeiriadau

- Allison Jr, D.C. (2009). *The historical Christ and the theological Jesus*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Deines, R. (2013). *Acts of God in history: Studies towards recovering a theological historiography*. Tübingen: Mohr Siebeck.
- Ehrman, B. (2013). *Did Jesus exist? The historical argument for Jesus of Nazareth*. New York: Harper Collins.
- Ratzinger, J. [Pope Benedict XVI] (2011). *Jesus of Nazareth: Holy Week: From the entrance into Jerusalem to the resurrection*. San Francisco: Ignatius Press.
- Schweitzer, A. (2000 [1906]). *The quest of the historical Jesus*. London: SCM Press.
- Tyrrell, G. (1963 [1909]). *Christianity at the crossroads*. London: George Allen & Unwin.
- Vermes, G. (2007) 'Review of Pope Benedict XVI's *Jesus of Nazareth: From the baptism in the Jordan to the transfiguration*.' *The Times*, May 19, 2007.

Mae Dr Peter Watts yn Gydymaith Addysgu mewn Astudiaethau Beiblaidd yn Adran Ddiwinyddol ac Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Nottingham. Mae Dr Watts wedi addysgu modiwlau Beiblaidd sy'n ymestyn o Fywyd a Dysgeidiaeth Iesu, i'r Beibl mewn Cerddoriaeth, Celf a Llenyddiaeth.

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

Declan O'Sullivan

Mae'r erthygl hon yn diffinio pum piler Islam, gan nodi eithriadau dilys ar gyfer Mwslim defosiynol pryd y caiff ohirio eu cynnal nhw, yn seiliedig ar amgylchiadau penodol sy'n codi yng nghyd-destun y byd seciwlar modern y mae Mwslimiaid hefyd yn byw o'i fewn.

Cyswllt manyleb: RS1/2 WR: Crefyddau'r Gorllewin (AS): ADRAN A: Astudio Islam, 3. Cred ac ymarfer.

Pum Piler Islam (*arkān-al-Islām*)

Y gair am credo yn Arabeg yw *'aqīdah*, sy'n cynrychioli erthyglau ffydd yn athrawiaethau'r Qur'an, yn cynnwys cred mewn un Duw, angylion, proffwydi, ysgrythurau a'r dydd barn terfynol. Er bod rhaniad amlwg rhwng credoau Shī'a a chredoau Sunnī, mae'r ddau enwad Islamaidd yn dilyn yr un credo a phum piler ffydd. Yn Arabeg, y termau a ddefnyddir yw *arkān-al-Islām* – 'pileri Islam', a hefyd *arkān ad-dīn* – 'pileri'r grefydd'. Cyfeirir yn aml at y pum piler yn y drefn *shahādah*, *salāt*, *zakāt*, *ṣawm* a *hajj*, fel maen nhw'n cael eu portreadu mewn *hadīth* (traddodiad) arwyddocaol y cyfeirir ato fel *Hadīth Jibril* (Naratif Gabriel). Mae'n rhoi crynodeb byr iawn o'u hystyr, a ddefnyddir i alluogi Mwslimiaid a rhai sydd heb fod yn Fwslimiaid i ddeall beth mae ffydd (*īmān*)

yn ei olygu yn Islam. Mae'r credo gwirioneddol gyntaf a mwyaf sylfaenol yn cael ei ddatgan yn yr *Hadīth* hwn:

Daeth dyn wedi'i wisgo mewn gwyn ac eistedd i lawr mor agos at y Proffwyd tra oedd gyda'i Gymdeithion nes bod ei bengliniau'n cyffwrdd â phengliniau'r Proffwyd, a dywedodd: 'O Negesydd Duw, beth yw Islam?' Atebodd y Proffwyd, 'Tystiolaethu nad oes duw ond Duw ac mai fi yw Negesydd Duw [*shahādah*]; fe ddylai pob un berfformio'r gweddïau [*salāt*] a thalu'r elusen gyfreithiol [*zakāt*] ac ymprydio yn ystod mis Ramadān [*ṣawm*] a gwneud pererindod i'r Tŷ [ym Makkah, *hajj*] os yw hynny'n bosib yn ei achos personol.' (addasiad o eiriau *Hadīth Jibril*)

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

Shahādah

Yr enw ar y credo Islamaidd fel y datganiad o ffydd yw *shahādah*. Caiff ei ystyried fel y piler cyntaf, oherwydd ei arwyddocâd amlwg i unrhyw Fwslim defosiynol i ddatgan credoau craidd Islam. Mae'n cael ei ffurfio o ddau ddatganiad ar wahân, sy'n cael eu hadnabod fel y 'dystiolaeth ddeublyg' (*ash-shahādātān*) neu'r *shahādah* ddeuol. Mae'r *shahādātān* yn darllen: 'Nid oes Duw ond Allah a Muhammad yw ei Broffwyd' – ('*There is no God but Allāh and Muhammad is his Prophet*') (Doull, 2006, t. 46).

Pan fydd person yn troi at y grefydd Islam, yr unig ofyniad i gadarnhau ei ffydd newydd yw i'r un sy'n troi adrodd y *shahādah* dair gwaith, gyda gwir gred a derbyn yn onest a diamod, ym mhresenoldeb o leiaf un tyst Mwslimaidd arall. Mae'r datganiad ailadroddus hwn yn profi didwylledd gwirioneddol yr un sydd wedi troi at y grefydd. Caiff y *shahādah* ei adnabod hefyd fel y *kalimah* ('y gair').

Salāt

Ail biler Islam yw *ṣalāt* (gweddi), sydd weithiau'n cael ei sillafu fel *salāh*. Caiff pump o weddïau defodol, pob un yn cael ei rhagflaenu gan lanhau y corff drwy ymolchi (*wuḍū*), eu hoffrymu'n ddyddiol: *ṣalāt al-fajr* (gyda'r wawr), *aḏ-ḏuhr* (ganol dydd), *al-aḥr* (prynhawn), *al-maghrib* (machlud haul), and *al-īshā* (gyda'r nos). Er mwyn perfformio'r gweddïau hyn, bydd Mwslimiaid yn sefyll yn syth â'u pen yn gwyro i lawr, eu dwylo wrth eu hochr ac mae'r traed wedi eu gwahanu'n gymharus. Ar ddiwedd y gweddïau bydd y Mwslim yn gorffwys mewn sefyllfa penlinio, yn cynnig bendith o heddwch i'r angylion sy'n eistedd ar yr ysgwydd chwith ac ar yr ysgwydd dde. Bydd Mwslim yn edrych dros yr ysgwydd dde

ar yr angel sy'n cofnodi gweithredoedd da, gan roi'r fednith *as-salāmu 'alaykum wa rahmatulaah* - 'Bydded i heddwch a bendithion Duw fod arnoch chi' ('*Peace and blessings of God be upon you*'), ac yna'n edrych dros yr ysgwydd chwith ar yr angel sy'n cofnodi eu gweithredoedd drwg, ac yn cynnig yr un fendith.

Ystyr *fātihah* yw 'Yr Agoriad', a dyma yw teitl *sūrah* (pennod) gyntaf y Qur'an. Mae'n cael ei barchu gan Fwslimiaid trwy gael ei adrodd ei ym mhob safiad (*rak'ah*) o'r pum gweddi benodol bob dydd. Mae'n cael ei ailadrodd un deg saith gwaith y dydd a bob amser yn dod i ben gydag *amin* (amen). Mae'r *fātihah* yn aml yn cael ei adrodd fel rhan o'r *du'ā*, neu weddi unigol a gweddi ddigymell. Mae'r *du'ā* yn weddi ar wahân, y mae'n bosib ei hadrodd yn ddigymell yn ystod unrhyw adeg o'r dydd, yn hytrach na bod yn weddi sy'n rhan o weddïau set y *salāt*. Does dim terfyn oedran penodol ar gyfer ymarfer y gweddïau dyddiol, ac fe fydd plant Mwslimaidd mor ifanc â saith oed yn cael eu hannog i weddio - '*Muslim children as young as seven are encouraged to pray*' (BBC, 2009).

Zakāt

Y piler nesaf yw *zakāt*, y gellir hefyd ei drawslythrennu fel *zakāh*. Mae'r math yma o elusen, sy'n cael ei darparu gan y rhai sy'n gallu gwneud hynny, yn eithriadol o bwysig yn Islam. Mae'r gair yn cyfieithu i olygu 'puredigaeth' ac yn deillio o'r ferf *zakā* sy'n golygu 'ffynnu', 'bod yn gyflawn', a 'bod yn bur'. Gan fod y *zakāt* yn seiliedig ar yr amod bod oedolyn yn darparu o'i wirfodd gyfran benodol o'i gyfoeth y tu hwnt i'w gynhaliaeth sylfaenol a'i anghenion personol, mae'n cael ei weld fel ffurf ar drethiant ar eiddo unigolyn. Nid yw'r elusennau o reidrwydd yn golygu arian; gall cyfraniad amgen yn achos ffermwy

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

gwledig fod yn swm o'u cnydau neu nifer penodol o dda byw. Caiff y cyfraniad lleiaf sydd ei angen i bob Mwslim ei ddarparu ei adnabod fel *nisbah*, ac mae hyn yn 2.5% o gyfoeth net blynyddol pob Mwslim.

Caiff y *zakât* ei ddefnyddio ar gyfer pobl yn y gymdeithas sydd mewn angen, ac mae hefyd yn hyrwyddo ffydd yr un sy'n rhoi. Mae'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl sydd mewn dyled, ac i helpu teithwyr sydd heb ddigon o arian ar gyfer bwyd, dillad neu lety. Yn draddodiadol roedd hefyd yn ffordd o ryddhau caethweision. Yn y bôn, mae'r mathau sylfaenol o gyfoeth sy'n destun *zakât* yn cynnwys aur, arian, da byw, cynnyrch amaethyddol, a chyfranddaliadau a bondiau, ynghyd ag asedau hylifol eraill.

Mae yna hefyd ffurf arall o gymorth gwirfoddol tuag at elusennau, y cyfeirir atyn nhw fel *sadaqâh*. Mae'r term *sadaqâh* yn deillio o'r gwraidd-air *sadaqâ* sy'n golygu 'siarad y gwir' neu 'bod yn wir'. Caiff y gair hwn ei ddefnyddio'n aml yn y Qur'an yn ei ffurf luosog fel *sadaqât* - 'gweithredoedd o garedigrwydd a haelioni'. Mae un math penodol o *sadaqâh* yn digwydd yn ystod dathliad *Īd al-Fitr*, y dathliad ar ddiwedd *Ramadân* pan fydd Mwslimiaid yn cynnig cwota penodol o rawn i'w ddosbarthu i'r bobl dlawd.

(Mae'n bosib nodi tebygrwydd yma rhwng Iddewiaeth ac Islam, gan mai'r gair Hebraeg sy'n gysylltiedig ag elusen yw *Tzedakah*, ac mae'r ddau'n cyfieithu i'r Saesneg i olygu cyfiawnder - 'righteousness': Woodberry, 1996, t. 180.)

Sawm

Y term a ddefnyddir ar gyfer ymprydio yn Islam yw *ṣawm*. Yn nyddiau cynnar Islam, fe argymhellodd Muhammad gredinwyr i ymprydio er mwyn sefydlu ffurf o

ddisgyblaeth lem. Y seremoni bwysicaf sy'n ymwneud ag ymprydio yn y calendr Islamaidd yw mis *Ramadân*, lle mae ymprydio o doriad gwawr hyd fachlud haul bob dydd yn digwydd am bedair wythnos. Yn ystod Ramadan mae torri'r ympryd yn digwydd bob nos pan fydd y teulu yn eistedd gyda'i gilydd i fwyta, neu pan fydd casgliadau mwy o lawer o aelodau'r gymuned yn cyfarfod i fwyta a dathlu gyda'i gilydd. Caiff y rhan hon o'r diwrnod ei galw'n *iftar*. Yn seiliedig ar esiampyl y Proffwyd Muhammad, mae'r ympryd yn draddodiadol yn cael ei thorri bob nos ar ôl machlud haul trwy fwyta datys neu halen. Unwaith y bydd y lleud newydd yn dod yn weladwy, mae hyn yn nodi dechrau'r wyl *Īd al-Fitr* festival a diwedd *Ramadân*.

Nid dim ond ar fwyd a diod y mae'r ympryd yn canolbwyntio, ond mae hefyd yn cynnwys ymatal rhag cyfathrach rywiol gyda phriod, ac ymatal rhag ysmegu tybaco. Y tu hwnt i'r ymwrthod rhag gwneud gweithgareddau corfforol, disgwylir hefyd i ffyddloniaid Mwslimaidd wneud eu gorau i osgoi meddyliau a gweithredoedd drwg hefyd. [*Beyond the denial of physical activities, the faithful*] 'are also expected to do their best to avoid evil thoughts and deeds as well' (BBC, 2009). Mae yna nifer o achlysuron eraill yn ystod y flwyddyn sydd hefyd yn ymwneud ag ymprydio. Fodd bynnag, gan fod y rhain yn ddathliadau a seremonïau eraill sy'n cael eu seilio ar y *sunnah* neu *hadith* (traddodiad) dydyn nhw ddim yn orfodol i bob Mwslim.

Hajj

Mae'r gair *Hajj* yn cynrychioli'r bererindod flynyddol i Makkah (Mecca). Mae hyn yn digwydd yn ystod mis *Dhū l-Hijjah*, y deuddegfed a'r mis olaf o'r Calendr Islamaidd. Mae'n cael ei adnabod fel y 'bererindod fwyaf' neu'r

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

'bererindod ganonaidd' - *'the greater pilgrimage'* neu'r *'canonical pilgrimage'*.

Mae rhwymedigaeth ar gyfer pob oedolyn Mwslemaidd i ymgymryd â'r *Hajj* ar o leiaf un achlysur yn ystod ei fywyd, os yw'n ddigon iach ac yn abl yn ariannol ac yn gorfforol i wneud hynny. Mae'r rhai sy'n ymgymryd â'r *Hajj* yn gwisgo dilledyn lliain gwyn a wneir o ddau ddarn o ddefnydd di-dor, sydd heb ei bwytho, a elwir yn *ihram*.¹ Mae'r pererinion yn tueddu i wisgo gwisg syml, a thrwy hynny gyhoeddi cydraddoldeb a gostyngeddwydd yr holl gredinwyr gerbron Duw, heb ystyried gwahaniaethau bydol o ran hil, cenedligrwydd, dosbarth, oed, rhyw neu ddiwylliant. Mynegwyd hyn yn glir mewn llythyr a anfonwyd o Makkah gan Malcolm X, a ddaeth yn ddiweddarach i gael ei adnabod fel El-Hajj Malik El-Shabazz, yn ystod ei brofiad *Hajj* ei hun yn Ebrill, 1964. Roedd yn datgan ei fod wedi bod yn dyst i undod yr ummah, gan sylweddoli bod Mwslimiaid yn bobl o bob lliw croen ac yn meddu ar bob lefel o gyfoeth.

Roedd yno ddegau o filoedd o bererinion, o bob cwr o'r byd. Roedden nhw'n bobl o bob lliw, o bobl gwallt golau llygaid glas i bobl ddu eu croen. Ond roeddem i gyd yn cymryd rhan yn yr un ddefod, yn arddangos ysbryd o undod a brawdoliaeth, sef yr hyn yr oedd fy mhrofiadau i yn America wedi fy arwain i gredu na allai fodoli rhwng y bobl wyn a'r rhai oedd heb fod yn wyn. ..

Doeddwn i erioed o'r blaen wedi cael fy anrhydeddu mor uchel. Doeddwn i erioed o'r blaen wedi cael fy ngwneud i deimlo'n fwy gostyngedig ac annheilwng. Pwy fyddai'n credu'r holl fendithion sydd wedi cael eu harllwys

ar Negro Americanaidd? Rai nosweithiau yn ôl, fe wnaeth dyn a fyddai'n cael ei alw yn America yn ddyn 'gwyn', diplomydd yn y Cenhedloedd Unedig, llysgennad, a chydymaith y brenhinoedd, rhoi ei ystafell westy i mi, a'i wely.
(addasiad o eiriau Malcolm X, 1964)

Yn ystod yr *Hajj* mae pererinion yn perfformio'n symbolaidd nifer o ddigwyddiadau a ddigwyddodd ym mywydau Abraham (*Ibrāhīm*), ei bartner Eifftaidd Hagar, a'u mab Ishmael (*Ismā'īl*). Y digwyddiad cyntaf yw'r *tawāf*, pan fydd pob pererin yn cerdded saith gwaith, i gyfeiriad croes i'r cloc, o amgylch y Ka'aba.

Pan fydd y bererindod wedi ei chwblhau'n llawn ac yn gywir, mae'r *hajj* yn caniatáu maddeuant i'r pererinion am eu holl bechodau blaenorol; felly mae mynychu'r *hajj* yn weithred bersonol o edifeirwch i Fwslim. (Y gair am edifeirwch mewn Arabeg yw *tawbāh* ac mae'n thema bwysig yn y Qur'an drwyddo draw.) Gan fod mynychu'r *hajj* yn cael ei ystyried yn beth mor uchel ei barch o fewn y gymuned Islamaidd, fe allai Mwslimiaid ddewis ychwanegu'r rhagddodiad *al-Hajj* (pererin) at eu henwau. Mae hwn yn deitl ffurfiol ac yn gydnabyddiaeth gyhoeddus hefyd o'u cyflawniad ymroddedig o biler olaf eu ffydd yn Islam.

Mae math arall o bererindod y gellir ei pherfformio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Mae hyn, sef yr *Umrah* neu'r 'bererindod lai', yn cael ei gwneud gan bererinion yn mynd i Makkah ac yn ymgymryd a gweithredoedd a defodau symbolaidd tebyg, ond nid yw'n rhwymedigaeth.

¹ Yng nghamau olaf yr *Hajj* mae'r pererinion yn newid y wisg hon am eu wisg genedlaethol neu draddodiadol leol, fel symbol o'u dychweliad anochel i'r byd halogedig a secwlar.

Y Pum Piler a'r Ummah

Mae pob un o'r pum piler yn arwyddocaol ac yn ystyrion i'r ummah, sef y gymuned fyd-eang gyfan o Fwslimiaid. Er enghraifft, mae pob Mwslim yn ymwybodol bod eu brodyr a chwiorydd yn gweddïo hefyd ar yr un pryd, a hefyd yn gweithredu'r *qiblah* – h.y. wynebu'r Ka'aba ym Makkah. Mae hyn yn mynegi teimlad o undod cyflawn ymhlith yr holl Fwslimiaid: dynion, merched a phlant, yn gweddïo ar yr un pryd â phawb arall ac yn wynebu i'r un cyfeiriad. Ffactor arall sy'n eu huno yw bod yr holl weddïau ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno mewn Arabeg, waeth beth yw iaith frodorol y gymuned Fwslimaidd leol. Mae cynnig *zakāt* hefyd yn rhoi'r teimlad i bobl eu bod yn cynnig rhywbeth ymarferol i'r rhai mewn angen yn yr ummah ehangach, y gymuned Fwslimaidd a'r gymuned nad yw'n Fwslimaidd, yn hytrach na dim ond cynnig gweddïau neu feddyliau.

Dylid nodi nad yw *jihād* yn un o'r pum piler, er bod rhai wedi rhoi statws answyddogol iddi o fod yn 'chweched piler. *'It should be noted that jihād is not one of the five pillars, although some have given it an unofficial status of being the "sixth" pillar'* (DeLong-Bas, 2009; gweler hefyd O'Sullivan, 2014).

Casgliad

Mae cyflawni'r rhwymedigaethau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer bywyd Mwslim, trwy gydbblethu'r arferion a'r dyletswyddau ymarferol, y mae'n rhaid iddyn nhw ymgymryd â'u gweithgareddau bob dydd, tra byddan nhw hefyd yn cynnal eu credoau mewnol parchedig dwfn. Waeth pa mor ddiffuant y gall unigolyn gredu, mae Islam yn ystyried ei fod yn ddibwrpas byw bywyd heb roi'r ffydd honno ar waith ac mewn ymarfer yn ddyddiol. *'No matter how*

*sincerely a person may believe, Islam regards it as pointless to live a life without putting that faith into action and practice' [on a daily basis]. Mae'r ffactorau hyn yn cysylltu mewn llif esmwyth o ymrwymiad crefyddol, ymroddiad a defosiwn diamod tra bydd y Mwslimiaid yn ymgymryd â materion ymarferol mwy cyffredin bywyd modern dydd-i-dydd. Mae cynnal y Pum Piler yn dangos bod Mwslimiaid yn rhoi eu ffydd yn gyntaf, ac nid dim ond yn ceisio ei ffitio i mewn o gwmpas eu bywyd seciwlar. *'Carrying out the Five Pillars demonstrates that the Muslim is putting their faith first, and not just trying to fit it in around their secular lives'* (BBC, 2009).*

Mae'n amlwg, yn ddelfrydol, y dylai pob un o'r pum piler gael eu dilyn gan pob Mwslim (Shī'a a Sunnī) fel rhwymedigaeth. O'r pump, mae'r *shahādah* yn amlwg yn ymrwymiad llwyr ar bob adeg o'r dydd, er mwyn tystiolaethu'n barhaus a throsodd a throsodd, y gred ddiffuant a phendant iawn yn Allāh a'r Proffwyd Muhammad. Ar gyfer y *salāt*, mae'n bosib i'r weddi ddyddiol bum gwaith y dydd gael ei gohirio o dan amgylchiadau penodol - gan gynnwys salwch difrifol, taith hir iawn, os yw'r unigolyn yn aelod o'r lluoedd arfog ar adeg rhyfel, neu os bydd rhywun yn gyflogai neu'n fyfyrwr sy'n ymdopi â llwyth gwaith trwm, neu yn achos rhai eraill sydd dan bwysau tebyg. Mewn achosion o'r fath, fe fydd gostyngiad neu oedi addas ar yr amseroedd gweddi yn cael ei ganiatáu, er bod rhaid i'r gweddïau gael eu hymarfer yn ddiweddarach, pan fydd yr amgylchiadau'n fwy priodol.

Mae rhai sefyllfaoedd yn caniatáu eithriadau dilys ar gyfer y pileri eraill. Er enghraifft, mae caniatâd i Fwslim osgoi *ṣawm* (ymprydio) os yw'n sâl neu'n teithio pellter hir; neu os bydd merch yn

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

ei chyfnod mislif, yn feichiog neu ar ôl genedigaeth ei phlentyn. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar y ffaith ei bod yn parhau'n ofynnol i'r Mwslim gyflawni cyfnod llawn y *şawm* gan wneud y cyfnod o ymprydio yn ddiweddarach pan fydd yn gallu gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer y rhai sy'n dioddef o unrhyw anhwylder bwyta difrifol, gan gynnwys anorecsia neu bwlimia. Mae merch yn ei harddegau o Birmingham a gafodd ei chyfweld gan y BBC yn esbonio sut y gwnaeth hi ymdopi â bod yn Fwslim tra roedd yn dioddef o anhwylder bwyta (Kadri, 2015). Gan ganolbwyntio ar ei hanghenion iechyd yn ystod ei hadferiad, roedd yn golygu ei bod yn osgoi ymprydio, yn enwedig yn ystod Ramadân. Dywedodd ei bod hi, y flwyddyn flaenorol, ddim wedi ymprydio o gwbl, ac roedd hwnnw'n benderfyniad anodd iddi am fod ei ffydd yn bwysig iddi. *'Last year I didn't fast at all, and that was a difficult decision to come to because my faith is important to me.'* Fe sylweddolodd mai hwn oedd y penderfyniad cywir, fodd bynnag, oherwydd y gallai ymprydio fod yn niweidiol i'w hadferiad. Yn ystod Ramadân yn y flwyddyn ganlynol fe benderfynodd ymprydio ar ddim ond rhai dyddiau i oresgyn sgil effeithiau ei salwch, gan gwblhau'r cyfnod llawn yn nes ymlaen, pan oedd hi'n gallu ymdopi. Cafodd ei chefnogi yn y persbectif hwn gan imam o Fosg Ganolog Birmingham, a oedd yn dadlau bod yn rhaid rhoi saib i'r addoliad, mewn unrhyw fath o addoliad, lle mae iechyd yn dod yn broblem – *[in any sort of worship] 'where health becomes an issue, that worship has to stop.'* Ychwanegodd y gallai pobl, yn lle ymprydio, dalu Fidyah, lle maen nhw'n am fis i berson tlawd gael bwyd i'w fwyta *'Instead of fasting, people can pay Fidyah where they pay over the month*

for a poor person to eat'. Fe fyddai hynny'n ddewis elusennol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r pilier arall sef *zakât*. Mae hyn yn cefnogi'r syniad bod pob un o'r pum pilier yn rhyng-gysylltiedig, a'i bod yn bosib eu defnyddio fel dewisiadau amgen i gefnogi ei gilydd.

Fe atgyfnerthodd y ferch hon, a oedd yn ei harddegau, ei bod yn bosib derbyn ffyrdd amgen o fynegi ffydd rhywun yn gorfforol, drwy gryfhau ei ffordd o fyw iach pan wnaeth hi ddatgan na ddylai crefydd sefyll yn ffordd adferiad, fe ddylai ei gynorthwyo. *'Religion shouldn't stand in the way of recovery, it should aid it.'* Ac fe ddywedodd hefyd ei fod wedi cymryd ychydig o amser iddi hi wireddu nad oedd peidio ag ymprydio y flwyddyn flaenorol yn ei gwneud hi'n berson drwg, roedd yn ei gwneud yn berson da. Roedd wedi gwneud dewis i edrych ar ôl ei chorff a'i meddwl: *'It took me a while to realise that not fasting last year doesn't make me a bad person, it makes me a good one. I made a choice to look after my body and mind'* (Kadri, 2015).

Yn achos yr *hajj*, mae'r rhwymedigaeth gyffredinol ar gyfer pob Mwslim i ymgymryd â'r bererindod yn ystod o leiaf un adeg yn eu bywyd wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd yn ddigon ffit yn gorfforol i ddal ati â'r gweithgareddau, y rhai sy'n gallu fforddio'r costau teithio a llety, ac sy'n oedolion synhwyrol – *[the general obligation for all Muslims to undertake the pilgrimage during at least one point in their life is restricted to those who are physically fit enough to endure its activities, are able to afford the travel and accommodation costs, and are 'sane adults']* (BBC, 2009). Mae'n amlwg fod y *zakât* ddim ond yn bosib i'r rhai sydd â rhywfaint o gynilion ac yn gallu fforddio talu 2.5% o'u cyfoeth ychwanegol. Nid yw ffydd ddefosiynol y rhai sy'n hynod o wael neu'n ddigartref yn cael ei hamau,

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

er y gallan nhw ddim ond bod yn rhai sy'n derbyn y *zakât* ac nid yn rhoddwyr. Mae'n bosibl, felly, i'r rhan fwyaf o Fwslimiaid, yn y gymdeithas fodern seciwlar aml-ffydd neu aml-ddiwylliannol hon, ymgymryd â'r *shahādah* a'r *salāt*, a

pharhau i fod yn Fwslim hollol ymroddedig, hyd yn oed os yw'r rhoddion elusennol (*zakât*), yr ymroddiad llawn o ymprydio (*ṣawm*), a'r gallu i fynychu'r *hajj* yn bell allan o'u cyrraedd.

Cysylltau

http://amf.net.au/library/uploads/files/Religion_Cultural_Diversity_Resource_Manual.pdf (Abdullah Saeed. *Muslim Australians: Their beliefs, practices and institutions*. Department of Immigration and Multicultural and Indigenous Affairs and Australian Multicultural Foundation, 2004, pp. 21-25)

<http://islamicpamphlets.com/the-five-pillars-of-islam> (Islamic Pamphlets: Five Pillars of Islam)

<http://lumina.hnu.edu.ph/articles/adeniyiOct09.pdf> (M. O. Adeniyi. The Five Pillars of Islam and national development in Nigeria. *LUMINA* 20 (2), 2009)

http://pages.uoregon.edu/aweiss/Islam_GlobalForces/Esposito%20Week%201.pdf (J. Esposito. *Islam: The straight path*. Oxford: Oxford University Press, 1998)

<http://www.astudyofquran.org/web/index.php?id=60,0,0,1,0,0> Five Pillars of Islam in the Hadith and the Qur'an)

<http://www.bbc.co.uk/religion/religion/islam/practices/fivepillars.shtml> (BBC. *The Five Pillars of Islam*, 2009)

http://www.ijfm.org/PDFs_IJFM/13_4_PDFs/04_Larson.pdf (W. F. Larson. Critical contextualization and Muslim conversion.

International Journal of Frontier Missions 13(4), 1996, 189-191)

<http://www.saylor.org/site/wp-content/uploads/2011/08/HIST351-2.2-Five-Pillars-of-Islam.pdf> Five Pillars of Islam)

Pwyntiau trafod

1. Os yw rhywun sy'n Fwslim ddim yn gallu mynychu *hajj* yn ystod ei oes gyfan, sut mae'n bosib dal i'w ystyried ef neu hi yn Fwslim defosiynol, ymrwymedig ac ymroddedig?
2. Beth yw'r eithriadau y gall Mwslim ystyried eu bod yn gyfreithlon er mwyn osgoi ymgymryd â'r *salāt* a'r *ṣawm*? A yw eithriadau o'r fath yn gyson â'u hymrwymiad crefyddol?

Pum Piler Islam a'u Harwyddocâd mewn Cymdeithas Fodern

3. O dan ba amgylchiadau y gallai fod yn bosib cyfiawnhau i berson fyw fel Mwslim defosiynol trwy ddim ond arddel y *shahādah*, a pheidio â dilyn unrhyw biler ffydd arall?
4. Pa ddadleuon y byddai'n bosib eu defnyddio o blaid ac yn erbyn yr honiad y gallai *jihād* gael ei ystyried fel chweched pilier Islam?

Cyfeiriadau

- DeLong-Bas, N. (2009). The Five Pillars of Islam. *Oxford Bibliographies*
<http://www.oxfordbibliographies.com/view/document/obo-9780195390155/obo-9780195390155-0062.xml>
- Doull, F.E. (2006). Islam and the principle of freedom. *Animus* 11, 29-48.
<http://www2.swgc.mun.ca/animus/Articles/Volume%2011/Doull.pdf>
- Hadith Jibril* (The Gabriel Narration)
<http://taqwa.sg/v/articles/hadith-jibril-the-gabriel-narration>
- Kadri, A. (2015). Eating disorders at Ramadan: One teenager's experience. BBC News, 13 July 2015
<http://www.bbc.com/news/health-33479309>
- Malcolm X (1964). Letter from Mecca
http://www.malcolm-x.org/docs/let_mecca.htm
- O'Sullivan, D. (2014). The concept of jihād in Islam. *Challenging Religious Issues* 6, 20-26
<http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/challengingreligiousissues/Issue%206%20Challenging%20Religious%20Issues.pdf>
- Woodberry, J. D. (1996). Contextualization among Muslims reusing common pillars. *International Journal of Frontier Missions* 13(4), 171-186
http://www.ijfm.org/PDFs_IJFM/13_4_PDFs/03_Woodberry.pdf

Ymchwiliodd Dr Declan O'Sullivan tuag at ei PhD ym Mhrifysgol Durham yn y Centre for Middle Eastern and Islamic Studies. Testun ei ymchwil oedd 'Punishing apostasy: The case of Islam and shari'a law re-considered'. Yn 2006-7 roedd yn ymchwilydd ar y Prosiect Crefyddau Abrahamaid ym Mhrifysgol Manceinion i hyrwyddo Astudiaethau Crefyddol ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwchradd. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth yr Adran Addysg Gyffredinol yng Nghyfadrn y Celfyddydau Rhyddfrydol ym Mhrifysgol Ryngwladol Stamford, campws Bangkok, Gwlad Thai. Mae wedi cyhoeddi dros bump ar hugain o erthyglau mewn cyfnodolion academiaidd.